

ECO'R WYDDFA

Rhif 195

TACHWEDD 1993

Pris 25c

GOFALAETH NEWYDD

Ar nos Fawrth, Tachwedd 23, cynhelir oedfa arbennig yn eglwys Llandinorwig i sefydlu'r Parchedig Tegid Roberts yn glerig mewn gofal ym mhlwyf Llandinorwig a Phenisarwaun.

Un o Benmorfa, ger Porthmadog, yw Tegid Roberts. Wedi gadael ysgol treuliodd gyfnod yn y fyddin, gan wasanaethu yn yr Almaen am bedair mlynedd. Aeth wedyn i'r Coleg Normal cyn cael swydd yn Ysgol Dyffryn Nantlle yn 1973. Erbyn hyn




mae'n Bennaeth yr Ysgol Iau; bydd yn parhau yn ei swydd yno ar ôl cael ei sefydlu yn yr eglwys. Mae ef a'i wraig, Nant, wedi byw yn Llanrug ers 1976, ac yno y magwyd eu tri mab, Huw Tegid, Ynyr Gruffudd a Ioan Eurig.

Cafodd ei benodi yn Warden Eglwys Santes Helen, Penisarwaun, yn 1977. Cafodd ei ordeinio yn ddiakon yn Nghadeirlan Bangor yn 1987, a'r flwyddyn ganlynol daeth yn offeiriad yn y weinidogaeth ddi-gyflog. Ers 1987 hefyd bu'n Gurad yn Neonfaeth Arfon, gan wasanaethu ym mhlwyfi Penisarwaun a Llandinorwig. Y mae eisoes felly yn gyfarwydd â'r ofalaeth. Ond o hyn allan ef fydd yn gofalu'n llawn am y ddwy eglwys.

Dywed mai ei uchelgais yn yr ofalaeth yw cael pobl ifanc i ymddiddori mwy ym mywyd yr Eglwys, a cheisio pwysleisio perthnasedd Efengyl Iesu Grist i fywyd y gymuned arbennig hon.

GOBAITH NEWYDD




Dri mis yn ôl Cafodd Philip Williams o Fethel aren gan ei frawd Robert yn Ysbyty Brenhinol Lerpwl. A nos Sul, Hydref 31, cynhelir cyngerdd yng Nghapel Cysegr i ddiolch am lwyddiant y llawdriniaeth, ac i godi arian er budd yr Ysbyty Brenhinol ac Uned Arennau Ysbyty Gwynedd.

Fis Rhagfyr y llynedd, symudodd y brodyr a'u rhieni, David a Margaret Williams, o Lerpwl i Dŷ Capel Cysegr. Bu Philip, sy'n 33 mlwydd oed, yn wael ers saith mlynedd ac yn ddibynnol ar beiriant dialysis ers dwy flwyddedd. Gwelwyd bod angen trawsblaniad aren arno ac roedd Robert, sy'n 21 mlwydd oed, yn falch o allu cynnig gobaith newydd i'w frawd trwy gynnig un o'i arennau ef iddo.

Bu raid i Philip roi'r gorau i'w waith garddwriaeth yn 1987, ond erbyn hyn mae wedi ail ddechrau trin gerddi, a gofalu am dŷ gwyr, a gobeithia ddechrau busnes garddwriaethol rywbryd. Bydd Robert yn dechrau swydd newydd ar y QE2 y mis nesaf. Dywedodd Philip wrth yr *Eco* ei fod yn gwerthfawrogi'r cymorth a gafodd gan ffrindiau, cymdogion ac eglwys Cysegr, yn enwedig o gofio mai newydd ddod i fyw i'r ardal yr oedd.

Cantorion Elidir a Chôr Meibion Dyffryn Nantlle fydd yn canu yn y cyngerdd sy'n dechrau am 7.30 p.m. Y pris mynediad fydd £2, a £1 i bensiynwyr a phlant. Trefnwyd raffl fawr hefyd, a bydd enillwyr honno yn cael eu dewis yn Y Bedol ym Methel, nos Wener, Hydref 29.

GOFID NEWYDD



Y mae pryder yn Neiniolen ynglŷn â'r gwasanaeth a geir gan yr heddlu yn dilyn sefydlu trefn newydd o blismona yn y cylch flwyddyn yn ôl. Yn ddiweddar bu Cyngor Cymuned Llanddeiniolen a Chyngor Eglwys Deiniolen yn trafod y mater hwn, ac mae'n amlwg bod llawer o'r farn mai camgymeriad oedd cau swyddfa'r heddlu yn y pentref. Bellach mae'r adeilad yn wag a'i ffenestri wedi cael eu bordio. Mae yna ofn bod hynny'n arwydd bychan sy'n cadarnhau bod Deiniolen wedi cael ei esgeuluso a'i anghofio.

Dyma rai o'r cwynion a roddwyd i gynrychiolydd y tîm plismona a ddaeth i gyfarfod o'r Cyngor

Cymuned ar Fedi 1af: mae'n anodd iawn ar adegau cael ateb wrth ffonio'r swyddfa yn Llanberis; mae'n amhosibl weithiau drafod materion yn Gymraeg yn Llanberis; mae pryder na welir plismon ar droed yn rheolaidd yn y pentref.

Mewn pwyllgor o Gyngor Eglwys i'r pentref ar Hydref 11 penderfynwyd anfon llythyr at y Prif Gwnstabl yn mynegi pryder am y sefyllfa, a llythyr i'r Swyddfa Gartref i gefnogi galwad yr Heddlu am fwy o arian i gyflogi rhagor o blismyn.

Dywedodd yr Uwcharolygydd Price wrth yr *Eco* nad yw'r gwasanaeth a roir i Ddeiniolen wedi dirywio ers yr ad-drefnu. Gwadodd

CADWCH YN GLIR
KEEP CLEAR

Mae'r arwydd hwn y tu allan i hen orsaf yr heddlu yn Neiniolen. Ond ar gyfer pwy y mae wedi ei fwriadu? Mae rhai yn ofni bod yr Heddlu eu hunain wedi cymryd ei neges o ddifri, a'u bod yn cadw'n glir o'r pentref ers i'r drefn newydd o blismona ddod i rym y llynedd.

na ellir trafod materion yn Gymraeg yn Llanberis gan egluro bod pob plismon yno'n gallu siarad yr iaith. Cydnabu bod rhai galwadau ffôn yn cael eu trosglwyddo i Fangor pan nad oes plismon yn Llanberis, a'i bod yn bosibl bod rhywun di-Gymraeg yn y fan honno. Eglurodd bod y plismyn yn cael eu hannog i ymweld yn rheolaidd â holl bentrefi'r cylch, ac nad ydynt ers yr ad-drefnu yn cael eu galw i helpu yn y trefi ar adegau prysur.

Er bod yr Heddlu yn mynnu bod y gwasanaeth wedi gwella ers yr ad-drefnu, mae pryderon dyls yn aros ynglŷn â'r sefyllfa. Mae'r Prif Gwnstabl wedi bod yn galw am arian ychwanegol i alluogi'r Heddlu i gyflogi rhagor o blismyn. Tristwch pethau ydi bod y Llywodraeth bresennol mor gyndyn i roi'r arian hwnnw, ac mae peryg y bydd Deiniolen, fel aml i ardal arall, yn gweld y golled am amser eto.

ECO'R WYDDFA

Rhif 194
HYDREF 1993

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Clbyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(0248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (674669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

Gareth Williams, Angorfa,
Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)

Tony Storey, Awel y Mynydd,
Ceunant, Llanrug (650600)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Tŷ
Hen, Waunfawr (650599)

TREFNYDD GWERTHIANT

Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn,
Ffordd yr Orsaf, Llanrug

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (676733)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, RHAGFYR 2
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, TACHWEDD 22
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
RHAGFYR RHAGFYR/ NADOLIG	RHAGFYR 2 RHAGFYR 22	CWM-Y-GLO —	Mrs Iris Rowlands —	872275 —

Dymunaf ddiolch i'r cysylltwyr am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i fy nghynorthwyo i drefnu'r rota am y flwyddyn.

Llythyrau

Pennau Bach

Annwyl Olygydd,

Beth yw prifddinas gwlad Pwyl?

Pa chwaraewr sydd yng nghanol
y rheng flaen mewn tîm rygbi?

Beth yw enw iawn Arglwydd
Ponterwyd?

Ai chi fydd pencampwr 'Pennau
Bach' yn 1994?

Bydd cyfres newydd o 'Pennau
Bach' yn cael ei darlledu ar Radio
Cymru yn y flwyddyn newydd. Os
gallwch chi ateb y tri chwestiwn
cyntaf uchod, mae yna obaith mai
chi fydd yn ateb i'r pedwerydd.

Ar hyn o bryd mae cynhyrchydd y
gyfres, Tim Hartley, yn chwilio am
gystadleuwyr ar gyfer y rhaglen gwis
hon. Os hoffech gystadlu yn y gyfres
hon, cysylltwch ar unwaith â
'Pennau Bach', BBC Radio Cymru,
32 Heol Alexandra, Abertawe SA1
5BT.

Yn gywir,

RWTH WILLIAMS

Swyddog y Wasg a

Chyhoeddusrwydd

Ymateb i'r Broblem

Annwyl Olygydd,

'Rydym yn ysgrifennu atoch am yr
erthygl 'Oes yna Broblem?' (Eco mis
Hydref). Fel pobl ifanc yr ardal rydym
yn cytuno fod yfed o dan oed yn
broblem. Nid ond yn Llanberis yn
unig mae'r broblem ond ar hyd a lled
y wlad.

Beth arall sydd yma i ni ei wneud?
Ond ar y penwythnosau mae yfed
yn digwydd, nid bob nos.

Mae Clwb Ieuenctid ddwywaith yr
wythnos, ond beth am y pum noson
arall?

Beth am i chi drefnu
gweithgareddau i ni?

Ac i fod yn gywir nid plant Llanbêr
sydd yn yfed ond plant o bentrefi
eraill yr ardal sy'n dod i lawr i
Llanberis i yfed.

Pam ydych yn lluchio'r bai ar y
rhieni? Nid yw'n bosibl i rheiny fod
gyda'u plant 24 awr y dydd.

Yn gywir,

POBL IFANC LLANBERIS

(Wedi derbyn y llythyr hwn, fe
ofynwyd i'r llythyrwr gwreiddiol
ymateb iddo. Edrychwn ymlaen at
gael awgrymiadau ynglŷn â'r modd y
gellir ymateb i'r her sydd yn llythyr
y bobl ifanc ac yn yr ymateb pellach
hwn iddo. — Gol.)

Diolch i 'BOBOL IFANC LLANBÊR'
am ymateb i'r erthygl a
ymddangosodd yn rhifyn mis Hydref
o'r Eco. Mae'n cymeryd cryn dipyn
o blwch i allu ymateb yn y wasg fel
hyn ac yr ydych i'ch cymeradwyo
am wneud hynny.

Mae'r llythyr fel ymateb i'r erthygl
yn ddiddorol iawn ac yn rhoi HER
BENDANT i ni y BOBL HYN ynglŷn
a'n difaterwch a'n difrawder tuag at
ein hieuenctid.

Mi dwi'n falch y'ch bod chi'n
fodlon cydnabod fod yna broblem ac
yn cytuno yn llwyr a chwi mai nid yn
Llanbêr yn unig y mae yna yfed o dan
oed cyfreithiol — a gor-yfed hefyd.
ond 'i bod hi'n broblem ledled
Cymru.

Onid oedd yr erthygl yn syndod o
amserol gan i ni gael ein cyfeirio at
y broblem fel prif stori ar raglen
'Newyddion' y BBC yn ystod yr
wythnos ddiwethaf. Adroddid bod
canran uwch o yfed o dan oed yng
Nghymru nag yn unrhyw un o
wledydd eraill Ewrop.

Buaswn wedi bod yn falch o gael
eich ymateb i bwynt arall a wnaed
yn yr erthygl, sef y pwyslais a roir
ar ddiodydd cryf sydd yn cael ei roi
gan y bragwyr yn eu hysbysebion.

Fel y gwelwch nid dadlau dros fod
yn llwyr-ymwrthodwyr yr wyf ond
ceisio cael rhyw fath o gymedroldeb
ac edrych ar y sefyllfa real.

Mae gennych her fawr, anferthol
o fawr a dweud y gwir, yn eich
cwestiwn — Beth arall sydd yma i ni
ei wneud? a Beth am i chi drefnu
gweithgareddau i ni?

I fynd at yr ail gwestiwn gynta'!
Rwy'n rhyw amau eich bod o dan yr
argraff mai'r Golygyddion a
ysgrifennodd yr erthygl wreiddiol
gan eich bod yn gofyn beth am i CHI
drefnu . . . , ond gallaf eich sicrhau
nad y Golygyddion a'i sgwenodd
(rhag iddyn nhw gael bai ar gam, y
creaduriad!). Ond, efallai fy mod i'n
eich camddeall yn hyn o beth ac mai
rhoi HER I HOLL DDARLLENWYR YR
ECO yr ydych.

A rwan at y cwestiwn cyntaf —
Beth arall sydd yma i ni ei wneud?
Rwy'n falch o feddwl eich bod yn
dymuno gweld darpariaeth ar gyfer
ieuenctid, fel y Clwb Ieuenctid, am
saith diwrnod yr wythnos. Mae
hynny yn gofyn am gryn dipyn o
gefnogaeth gan bobl y fro i gynnal
y math hwnnw o ddarpariaeth. Ond,
dyna fo rydych chi wedi gofyn — wel
rwan ydi cyfle y rhai hyn ohonom i
wynebu'r her, i ymateb a rhoi
syniadau gerbron. Onid oes yma le
i holl gymdeithasau y fro i gyfarfod
i wyntyllu'r sefyllfa, gan gynnwys
cynrychiolwyr o Antur Padarn, y
Cyngor Cymuned a Chyngor Arfon
a hyd yn oed y Cyngor Sir.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN

Tachwedd 19 a 20

Cystadlu brwd yn
ogystal ac adloniant
— diwylliant Cymreig
ar ei orau.

Dewch i gystadlu neu
dewch i'ch diddannu
ond dewch!
Mae croeso i bawb.

CABS LLANRUG



C'fon 675951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR

ANTUR PADARN Y STRATEGAETH AR WAITH

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio bu'r Antur yn cychwyn ar y gwaith o weithredu rhai o'r syniadau a ddaeth o'r gymuned leol fel rhan o'n strategaeth tymor byr a hir. Yn sgîl yr arolwg cynhwysfawr a gynhaliwyd yn yr ardal, penderfynodd y pwyllgor roi blaenoriaeth i'r prosiectau canlynol. Cafwyd cydweithrediad llawn a chefnogaeth y Cynghorau Cymuned, unigolion a chymdeithasau'r fro i baratoi'r rhaglen i'r dyfodol.

Arolwg o anghenion busnes lleol
Mae cynlluniau ar waith i gynnal arolwg o anghenion busnesau bychan y Dyffryn. Nod arolwg o'r fath fydd asesu maint a natur yr anhawsterau a diffygion sy'n wynebu'r busnesau hyn yn eu gwaith bob dydd gyda'r sicrwydd o'u cynorthwyo i gynnal eu busnesau yn fwy llwyddiannus yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd modd cydweithio mewn partneriaeth â chyrff megis TARGED.

Llwybrau Cyhoeddus

Bwriadwn symud ymlaen yn ystod y misoedd nesaf i gyhoeddi llyfryn fydd yn cynnwys cyfeiriadau at rai o lwybrau cyhoeddus amlycaf y Dyffryn. Ystyriwn fod i'r llwybrau hyn bwysigrwydd hanesyddol ac ymarferol i drigolion y fro. Er mwyn tanlinellu hyn ymhellach, byddwn yn hel hanesion a gwybodaeth leol sydd yn gysylltiedig â hwy. Bydd proses ymgynghori llawn â mudiadau, cymdeithasau, cynghorau ac arbenigwyr hanesyddol ac addysgol yn digwydd er mwyn cyflawni hyn. Trefnir cyfarfod cyhoeddus agored yn Oriel Eryri, Llanberis, ar nos Lun, Tachwedd 29, am 7.30 p.m. i lansio'r cynllun. Mae diddordeb mawr eisoes wedi ei ddangos gan nifer o unigolion a chyrff tuag at y fenter.

Canol Llanberis

Mae trafodaethau eisoes rhwng Awdurdod Datblygu Cymru, Cynghorau Gwynedd, Arfon a Chymuned Llanberis, ynghyd â'r Bwrdd Croeso a'r Siambr Fasnach, gyda'r golwg o wella amgylchedd canol y pentref. Cododd hyn yn sgîl gweithgarwch ac ymchwil gan yr Antur. Bu penodiad Swyddog Datblygu'r Antur yn gyfrwng i hyrwyddo'r bartneriaeth angenrheidioli wireddu'r gwaith pwysig hwn. Y gobaith yw y bydd y cynlluniau arfaethedig yn denu rhagor o bobol o'r cyrion i ganol y pentref gan adfywio'r pentref yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Craig yr Undeb

Gresyn yw sylwi ar gyflwr truenus y safle sydd yn amgylchynu Craig yr Undeb ger Pen-llyn, Brynrefail. Fel safle o bwys gwleidyddol sydd yn cofnodi pennod arwrol yn hanes y diwydiant llechi, credwn ei bod yn hanfodol adfer y safle i'w gyflwr haeddiannol. Bwriadwn fynd ati i greu llecyn atyniadol fydd o ddiddordeb addysgol, hanesyddol ac yn gyrchfan naturiol i deuluoedd y fro. Cynhaliwyd trafodaeth yn ddiweddar gyda Prif Swyddog lleol Undeb Gweithwyr Cyffredinol a Thrafnidiaeth i'r perwyl hwn. Da o beth fydd gweld gwireddu y bwriad i adfer y safle er cof am safiad ac undod y gymdeithas chwarelyddol Gymreig.

Sefydlu Bwrdd yn cynnwys arbenigwyr busnes

Yn ystod y misoedd nesaf, fel rhan o strategaeth tymor hir yr Antur, bwriedir gwahodd unigolion ac arbenigwyr sydd eisoes wedi profi gallu busnes amlwg i ymuno yn ein gweithgaredd a chynllunio economaidd. Hyderwn y bydd eu llwyddiant hwy yn esgor ar

ddatblygiadau positif ym myd busnes y cylch.

Canolfan Aml-bwrpas

Yn dilyn ymdrech arloesol Cyngor Cymuned Llanrug, nifer o gymdeithasau lleol, capeli'r cylch a chydweithrediad yr Ysgol Uwchradd yn y gwaith o baratoi cynllun ar gyfer Canolfan Aml-bwrpas i bentref Llanrug, cefnogwn ac estynnwn pob cymorth er mwyn cyrraedd y nod. Bydd y prosiect hwn nid yn unig yn gaffaeliad amlwg i bentref Llanrug ond yn batrwm y gellid ei efelychu mewn pentrefi eraill o fewn y Dyffryn.

Cofrestru fel Cwmni ac Elusen

Bellach mae Antur Padarn yn dirwyn i ben y broses o ymgorffori fel Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant yn ogystal â chofrestru fel Elusen. Gwelwn hyn fel cam holl bwysig fydd yn ein galluogi i weithredu ar sail gadarnach wrth ymdrin â materion economaidd, diwylliannol a chymdeithasol y fro. Hyderwn y bydd y cam pwysig hwn yn gyfrwng i alluogi'r Antur i weithredu mewn partneriaeth lawnach â chyrff megis Cyngor Bwrdeistref Arfon, Cyngor Sir Gwynedd, Awdurdod Datblygu Cymru, TARGED, ac ati.

Os yw'r gymuned am gyrraedd ei nod rhaid sicrhau gweithredu pendant a phositif yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Er mwyn gweld yr amcanion uchod yn cael eu gwireddu rhaid i'r gymuned leol ddangos yr awydd a'r hyder i wireddu'i photensial yn yr amgylchfyd cyfnewidiol ac ansicr sydd ohoni. Swyddogaeth yr Antur yw cyd-lynu a chydgordio'r dyheadau hynny.

Bydd cyfarfod nesaf yr Antur yn cael ei gynnal ar nos Iau, Tachwedd 11, am 7 o'r gloch, yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.

ANTUR PADARN CYFARFOD CYHOEDDUS

yn Oriel Eryri, Llanberis

Nos Lun

Tachwedd 29, 1993

am 7.30 o'r gloch

**Trafod cyhoeddi llyfryn
ar lwybrau cyhoeddus
amlycaf Dyffryn Padarn**

Croeso cynnes i bawb

NSPCC

Mewn cyfarfod o'r NSPCC a gynhaliwyd yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, ar nos Lun, Hydref 4ydd, fe benderfynwyd ail-sefydlu pwyllgor newydd i ardaloedd Llanberis, Nant Peris a Brynrefail a'i alw yn 'Bro Peris'.

Bydd croeso cynnes iawn i bawb sydd â diddordeb mewn gweithredu ar y pwyllgor neu i helpu i godi arian i'r NSPCC, mewn unrhyw fodd, i Noson Goffi a mins pei yng Nghegin Cae Coch, Stryd Fawr, Llanberis, am 7 o'r gloch, nos Wener, Tachwedd 12fed.

DWY BRIODAS – UN FFROG



Rhian gyda Hywel ei thad.

'Roedd mwy nag un cysylltiad diddorol â bro'r Eco pan briododd Rhian Griffith allan yn Awstralia ym mis Ionawr eleni.

Merch yw Rhian i Hywel Griffith, gynt o'r Foelas, Llanrug. Ymfudodd Hywel a'i deulu i Awstralia yn 1971, ble bu'n dilyn gyrfa fel athro. Ond y cyswllt mwyaf diddorol yw'r ffrog briodas a wisgodd Rhian, gan fod y ffrog wedi ei gwisgo gan ei modryb Llywela pan fu hi briodi yng Nghapel Ponrhythallt 32 mlynedd ynghynt.


Merch ifanc iawn oedd Rhian yn y briodas honno ond mae'n amlwg i'r ffrog wneud cryn argraff arni.

Mae Hywel a'i deulu yn derbyn yr Eco yn rheolaidd ers blynyddoedd drwy'r post a dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.



Llywela Hall gyda'i thad, Richard Griffith (Dic Pencraig), ar adeg ei phriodas ym Mhonrhythallt yn 1961.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Dewis eang o Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc – allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 650291

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:

(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG**

Caernarfon 673513



O Siambr Selwyn

Mae'n rhyfedd fel ma rhywun yn dysgu llawer ac yn cael mwynhad a phleser yn gwbwl annisgwyl weithiau. 'Sipsiwn' oedd y testun y ces i wahoddiad i lunio sript radio arno yn ddiweddar ma. 'Rwan, doeddwn i'n gwybod fawr ddim am arferion yr hen sipsi traddodiadol. Mae'r cymeriadau lliwgar a fyddai'n arfer ymweld â'n pentrefi ni wedi diflannu o'r tir ers tro byd. Do, fe ddiffanodd y sipsi a'r trempyn a Sioni Winwns hefyd.

Fodd bynnag, bu'r gwahoddiad yn her ac yn sialens i mi ac mi dreuliais i oriau difyr yn ymchwilio i hanes y 'Nomadiaid' crwydrol.

Mi fydda mam yn bygwth fy ngwerthu i i'r sipsiwn pan fyddwn i'n dueddol o fynd dros ben llestri pan yn blentyn. Hefyd pan ddychwelwn i o Gors Tyddyn Bach neu o Barc Wern yn fwd o'm coryn i'm sawdl, ar ôl ceisio efelychu Frank Swift rhwng y cotiau pyst gôl, geiria mam fyddai — 'Neno'r tad hogyn, sbia golwg sy arnat ti — 'rwy'ti'n waeth na hogyn sipsiwn'.

Do fe'n dysgwyl ni i ofni'r sipsiwn. Argraffwyd ar ein meddyliau mai creadur budr a chreulon oedd o.

Ond eto mi genais inna gyda chenedlaethau o blant:

'Hei ho, hei-di-ho

Fi yw sipsi fach y fro

Carafan mewn cwr o fynydd

Newid aelwyd bod yn eiddydd ...'

a Jones y Sgwyl yn ein hannog i wenu wrth ganu'r geiriau. 'Gwenwch wir,' medda fo, 'Pobol hapus ydy'r sipsiwn — pob sy'n mwynhau byw hefo natur — pobl rydd.'

Ond er y rhamant a'r rhyddid a oedd yn gysylltiedig â'r sipsiwn tueddu i'w cadw nhw o hyd braich roeddau ni. Sefyll o bellter i edmygu'r garafan a'r ceffyl, ac i dosturio dros y plant bach parablus, carpiog a fyddai'n hongian wrth ddrws stabal eu cartre olwynog.

Wrth gwrs does na ddim croeso i'r sipsiwn modern (y *new age travellers*) sy'n beiddgar hawlio ac yn difrodi tiroedd cefn gwlad yn achlysurol. Yn yr hen ddyddiau dywedir bod dros naw deg y cant o'r sipsiwn yn anllythrenog. Heddiw, ma na gryn nifer o raddedigion ymysg y crwydriaid modern sy'n achosi

cymaint o drafferthion i'r ffermwyr.

Ys gwn i be fyddai barn Tywysog y Sipsiwn — Nathaniel Petulengro Lee ar y crwydriaid cyfoes; 'Roedd o'n arbenigwr ar ddeud ffortiwn. Roedd o'n medru bwrw mellthith yn ogystal. Doedd ganddo fo ddim tystysgrif geni ar bapur. Na, roedd ei dystysgrif geni o wedi ei gerfio ar dderwen rhywle yn Sbaen — yn unol â hen draddodiad y sipsiwn.

Roedd o'n cofio gweld ei nain yn ei harch mewn gwisg flodeuog, gydag owns o faco a phibell mewn un llaw, a phaced o 'snyff' yn ei llaw arall — 'i'w helpu i fynd adre', a'r tylwyth yn canu ac yn dawnsio o gwmpas ei harch.

Petulengro hefyd oedd yn rhagweld dydd yn gwawrio tua'r flwyddyn 2000 (ymhen chwe mlynedd, sylwch) pryd na fyddai ond UN tŷ yn sefyll yn Llundain, ac ynddo UN ferch, naw oed, a'i mam — a'r fechan yn gofyn i'w mham: 'Mami ga i fynd allan i chwarae?' a hithau'n ateb, 'Mechan i, does na neb ar ôl iti chwarae â nhw — does na ddim mwy o blant ar ôl. Dos allan i ti gal gweld.'

Dychwelodd y fechan mhen 'chydig, yn llawn cyffro. 'Mami, Mami,' meddai, 'rydwi wedi gweld dyn'.

Daeth gwên i wyneb ei mam, a llawenydd i'w chalon, oherwydd fod yna UN dyn, UN ddynes, ac UN ferch fach yn fyw, ar y llecyn lle bu Llundain, ar ôl i fom atomig chwalu'r ddinas yn chwylfriw.

A wireddir ei broffwydoliaeth ys gwn i? Pwy a wŷr?

* * * * *

Hen enw beiblaidd ar y sipsiwn yw 'Nomads' ac ystyr y gair yng Ngeiriadur Rhydychen yw: 'Member of a tribe, wanderer, roaming from pasture to pasture'. Ie, crwydro o borfa i borfa. Fe wyddon ni gyd am y Wanderers o Bolton ac o Wolverhampton, yn ogystal â'r Rovers o Blackburn a Bristol. A beth am y 'Nomads' o Gei Connah?

Pwy fyddai'n credu bod na gysylltiad mor agos rhwng y sipsiwn â chlybiau pêl-droed ynte.

Oedd, roedd mam yn dewis ei geiriau yn ofalus, pan ddychwelwn i o Gors Tyddyn Bach a nillad ysgol i'n gramen o fwd ers talwm.

Dwi'n ei chlywed hi rwan: 'Neno'r tad, hogyn, sbia golwg sy' arnat ti — 'rwy'ti'n waeth na hogyn sipsiwn.'

Cefnogwch ein
Hysbysebwyd



SIOP GREFFTAU

CAFFI

CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. – 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr T. A. Thomas, Stad Tŷ Hen, sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

Croeso adref o'r Ysbyty: Croesawn Mr Dafydd Morris, 2 Bryn Golau; Miss J. A. Jones, Bod Gwilym; a Gwion Davies, Bryn Eithin, adref o'r ysbyty gan ddymuno adferiad iechyd i'r tri ohonynt.

Bedydd: Hydref 17, yn Eglwys Sant Ioan, gyda'r Parchg Barry Thomas yn gweinyddu, bedyddiwyd Cara Jane merch fach Tegid a Samantha Pritchard, Stad Croes-y-waun.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs R. O. Jones, Carol a Gwenda, Y Bwthyn, Stad Croes-y-waun, yn eu profedigeath o golli priod a thad caredig.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs B. Westphal a Marlene, Stad Tref Eilian, yn eu profedigaeth o golli priod a thad caredig.

Estynnir ein cydymdeimlad i Mrs Carrie Owen, sydd ar hyn o bryd yn aros yn Penrhos, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod mor frawychus o sydyn.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Mrs May Ann Owen, Bod Arfon, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Dymuniadau gorau ichi.

Diolch: Dymuna Mrs M. A. Owen ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed.

Enillwyr y Clwb 300: Awst — £40: Mrs M. Parry Williams, Gwynfa; £25: Mr Dennis Bound, 14 Bro Waun; £10: Mr J. C. Jones, Hafod-y-rhug. **Medi** — £40: Katie M. Jones, Gorwel; £25: Wendy Jones, 2 Pen-clip; £10: Mrs B. Westphal, 6 Tref Eilian.

Y Gymdeithas Lenyddol: I agor y tymor eleni ar nos Lun, Hydref 25, disgwylir Maureen Rhys a John Ogwen i gyflwyno rhaglen ysgafn lenyddol ei naws o dan y teitl 'Ci a Chath', pan bydd y ddau yn cyflwyno darnau o lenyddiaeth o bob math sydd wedi apelio iddynt hwy. Llywyddir gan Mr Iolo Huws Roberts. Bydd yr ail gyfarfod nos Lun, Tachwedd 11, pan y disgwylir Mr John Grisdale, Prifathro Ysgol Brynrefail, atom i roi darlith, gyda sleidiau, am ei waith gyda thîm achub Llanberis y mae'n aelod ohono ers rhai blynnyddoedd bellach. Llywydd y noson honno fydd Mrs Mary Vaughan Jones. Estynnir croeso i aelodau hen a newydd a calondid yw deall fod amryw yn bwriadu ymaelodi o'r newydd y tymor hwn. Mae presenoldeb teilwng yn y cyfarfodydd yn galondid i'r

pwyllogor sydd wedi bod yn tefnu rhaglen ddiddan am y tymor hwn eto.

Yr Eisteddfod: Cofiwch am yr Eisteddfod. Dowch yn llu i gefnogi y cystadleuwyr ifanc, dyfodol ein hiaith a'n diwylliant, ac i fwynhau eitemau y rhai selog sydd yn ein diddanu bob blwyddyn.

Yr Urdd: Mae'r tymor wedi dechrau yn llwyddiannus hefo noson ymaelodi, ar Fedi 15fed, gyda Anti Sylvia ac Anti Joy, ac fe ddaeth Mr John Jones, Hafod-y-rhug yno i sôn wrth y plant am gŵn a sut i edrych ar eu hól a'u disgyblu. Daeth a ffrind go arbennig hefo fo, sef Glen y ci defaid. 'Roedd y plant wrth eu bodd hefo'r ci. Diolch yn fawr iawn i Mr Jones, Glen, ac i Edryd am ddod i helpu taid ar y noson. Ar Fedi 22ain cafwyd Helfa Drysor o gwmpas y pentraf a threfnwyr y noson gan Anti Sylvia ac fe fu'n noson lwcus iawn hefo'r tywydd. Mwynhawyd y noson gan y plant a'u rhieni a chafwyd diod o oren a bisgedi wedi gorffen yr Helfa.

Yr wythnos ganlynol daeth Nan Wyn i sgwrsio am ei thaith ddiweddar i'r India ac fe ddangosodd y plant ddiddordeb mawr pan ddywedodd Nan ei bod wedi cyfarfod y Fam Theresa. Cafodd rhai o'r plant wisgo dillad o'r India a chwarae gêm mae plant yr India yn ei chwarae, rhywbeth yn debyg i gêm o goncyrs, a'r genethod oedd yn taflu orau ar y noson. Anti Rhian ac Anti Heulwen oedd yn cadw trefn ar y noson.

Ar y 6ed o Hydref cafodd y plant flas ar ddawnsio gwerin pan ddaeth Mrs Judith Hardin o Benisarwaun draw ac erbyn hyn mae rhai o'r plant yn ymarfer ar gyfer eisteddfod y pentref. Anti Delyth ac Anti Gina oedd yn helpu ar y noson yma.

Hydref 13eg daeth yr awdures Emily Huws i sôn am ei llyfrau ac roedd y plant ac Anti Nan ac Anti Heulwen wrth eu bodd yn gwrando ar y storïau a sut mae hi'n ysgrifennu llyfr.

Diolch yn fawr iawn i bawb am ddod i gadw noson i'r plant ac i bawb am helpu. Bydd Noson Tân Gwylt ar nos Wener, Tachwedd 5, ar Gae y Ganolfan am 6 o'r gloch ac fe fydd cawl a chŵn poeth ar werth yn y Ganolfan.

**NOSON I'R TEULU
TÂN GWYLLT
NOS WENER,
TACHWEDD 5
AR GAE Y GANOLFAN
am 6.00 o'r gloch
CAWL A CHŴN POETH
AM BRIS RHESYMBOL**

**GWASANAETH TRIN GWALLT
YN EICH CARTREF I FERCHED,
DYNION A PHLANT**

LINDA MORRIS

**1 BRYN FEDWEN, Ffordd yr Orsaf
LLANRUG. Ffôn: 678857**

'Un funud fach . . .'

'DYDDIAU GRAS'

Prynais lyfr ddde. Ac er na chefais amser i'w ddarllen eto, gwn fod y gyfrol *Dyddiau Gras* yn un gwerth chweil. Detholiadau byrion o waith y Parchg Emyr Roberts a fu farw ym mis Mai 1988, sydd yn y gyfrol hon. Golygwyd y gyfrol gan ei fab, John Emyr, a gosodwyd y darnau yn ddarlleniadau dyddiol am gyfnod o flwyddyn. Bydd darllen y gyfrol yn bleser ac yn fendith mi wn, gan mai dyna fy mhrofiad bob amser wrth wrando ar y Parchg Emyr Roberts.

Er mai yn Nhudweiliog a Threfor a'r Rhyl y bu Mr Roberts yn weinidog, yr oedd ei wreiddiau yn y fro hon. Fe'i ganed a'i fagu yng Nghym-y-glo. Ac wedi gadael Ysgol Brynrefail yn 14 oed, aeth i weithio i'r chwarel am saith mlynedd cyn iddo gael ei alw i'r weinidogaeth. Ac fe barhaodd ei ddiddordeb yn y fro hon a'i gonsyrn amdani ar hyd y blynyddoedd.

O'r holl bregethwyr a glywais yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf yma, y Parchedig Emyr Roberts oedd yr un yr edrychwn ymlaen fwyaf at wrando arno. Byddai bob amser yn cyflwyno'r Efengyl yn glir, yn ddealladwy, ac yn ddiddorol. Yr oedd yn dangos yr Arglwydd Iesu Grist yn Waredwr cryf a digonol. A thrwy'r cyfan, wrth bregethu neu anerch neu mewn sgwrs, yr oedd ei bersonoliaeth gynnes, annwyl ac agos-atoc yn dod i'r golwg, a'i ffydd gadarn yn ei Waredwr yn amlwg.

Mae bron i ddeunaw mlynedd ers i griw ohonom oedd yn fyfyrwyr ar y pryd fynd ati i gynnal cyfarfodydd pregethu wythnosol yn festri capel Nant Padarn yn Llanberis. Fe gafodd y cyfarfodydd hynny eu cynnal dros gyfnod o ryw dair mlynedd. Byddem yn gwahodd gweinidogion atom, ac yr oedd y Parchedig Emyr Roberts yn un ohonynt. Deuai atom o'r Rhyl bob tro y gofynnem iddo. Yr oedd wrth ei fodd yn dod, medda fo. Ac yr oeddem ninna wrth ein bodd o'i weld, gan ei bod yn bleser gwranddo arno'n pregethu. Roedd yn bleser hefyd cael bod yn ei gwmni wedyn, a chael miloedd o hwyl wrth wrando arno'n dweud ambell i stori a dysgu llawer o'i brofiad a'i esiampl ef.

Roedd yn amhosibl gwranddo arno heb sylwi ar ei gariad at Grist a'i awydd i weld yr Efengyl mewn bri yng Nghymru eto. Efengyl maddeuant a gras oedd wedi mynd a'i fryd. Dyna'r Efengyl sy'n dod i'r golwg ar dudalennau'r gyfrol newydd. Gallaf ddweud hynny cyn ei darllen gan mai siarad ac ysgrifennu am yr Efengyl Fawr honno a wnaeth Mr Roberts ar hyd y blynyddoedd. Gobeithio bydd y gyfrol yn ein hatgoffa am ei dystiolaeth lachar ef i'w Waredwr. Gobeithio y bydd hefyd yn fodd o gyflwyno'r Gwaredwr hwnnw i ni o'r newydd yn y Gymru hon heddiw. Diolch i Dduw am y gyfrol ac am ei hawdur.

JOHN PRITCHARD

Anfonwch fanylion am
eich gweithgareddau
Nadolig at yr **ECO**
mewn da pryd.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y gaeaf yn Hafan Elan, Llanrug, ar nos Lun, 4 Hydref. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaeid gan y Parchg P. Pritchard. Cymerwyd rhan gan Mrs M. Latham, Mrs N. Orritt a Mrs E. Taylor. Wedi'r gwasanaeth trafodwyd rhai materion gan Mrs Taylor a chafwyd adroddiad gan y Trysorydd, Mrs G. Roberts. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs J. Ransom a Mrs E. Taylor a diolchwyd iddynt gan Mrs M. Latham. Enillwyd y raffl gan Mrs G. Roberts. Cynhelir y pwyllgor nesaf ar 1 Tachwedd yn Hafan Elan.

Clwb Pobl y Cwm: Ar Fedi 30ain mwynhawyd egwyl o Bingo gyda Mrs Enid Price yn galw. Gofalwyr y banded a'r raffl oedd Mrs Mary Roberts a Mrs Mair Williams, ac enillydd y raffl oedd Mrs Enid Price.

Hydref 10fed caed cryn ddifffyrwch o wrando ar ein Llywydd, Mr Llew Hughes, yn sôn am hanes gan ddyfynnu o waith y Bardd Cocos. 'Rydym yn ddyledus a diolchgar i Mr Hughes am ei sêl a'i gyfraniad i'r Clwb a hynny bob amser yn ddifffyr. Y gwestwagedd oedd Mrs E. Jones a Mrs G. Pritchard ac enillydd y raffl oedd Miss M. Davies.

Yr Urdd: Ar nos Lun, Medi 27ain, cynhaliwyd pwyllgor i ethol swyddogion am y flwyddyn 1993-94. Cadeirydd y noson oedd Mair Hughes a'r swyddogion newydd yw — Cadeirydd: Cath Green; Ysgrifennydd: Sioned Pritchard; Trysorydd: Judith Pritchard. Cynhelir cyfarfodydd pob yn ail nos Lun yn y Ganolfan rhwng 6 a 7 o'r gloch i blant blwyddyn 1-6. Tâl aelodaeth fydd £3 am y flwyddyn.

Nos Lun, Hydref 4ydd, cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ac roedd y noson yng ngofal Mrs Mair Hughes a chafwyd noson hwyliog iawn gyda gêm geiriau. Diolchwyd iddi gan y plant.

Llongyfarchiadau i Jacky Hobby, Gernant, Allt Goch, ar ei phenodiad newydd fel Swyddog Iechyd Cynghorol (camddefnydd o gyffuriau) i gylch Hull a Humberside.

Gŵyl Ddiolchgarwch Eglwys Sant Gabriel: Cynhaliwyd yr Ŵyl ar y 10fed a'r 11eg o Hydref. Bore Sul bu gwasanaeth o'r Cymun Bendigaeid yn Eglwys y Plwyf Llanrug gan ein Rheithor y Parchg Peter Pritchard. Am 2 o'r gloch cafwyd gwasanaeth y

plant. Nos Sul, yn Eglwys Sant Gabriel, cafwyd y Gosber a'r pregethwr gwadd oedd y Parchg Ioan Wyn Jones, Ciwrad Caernarfon.

Fore Llun am 10 o'r gloch gweinyddwyd y Cymun Bendigaeid gan y Parchg Glyndwr Williams ac ar y nos Lun, yn Eglwys Llanrug, cafwyd Gosber o dan arweiniad Mrs Barbara Sowood, Llanfairfechan.

Yr organydd yn y gwasanaethau oedd Mr John Morris, Llanrug, a diolchir iddo am ei wasanaeth. Dymuna'r Rheithor, y Parchg Peter Pritchard, a'r Wardeiniaid ddiolch i bawb am addurno'r eglwysi ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a'r blodau hardd a dderbyniwyd.

Bingo: Cynhaliwyd Bingo yn yr Ysgol Gymuned, gyda'r elw tuag at Eglwys Sant Gabriel, ar nos Fawrth 12fed o Hydref. Diolch yn fawr i Mr W. G. Roberts, Llanrug, am alw'r rhifau. Cafwyd noson dda iawn.

Enillwyd y rafflau oedd — raffl fewnol: 1, Terry Williams, Bryn; 2, W. G. Roberts, Llanrug; 3, Julie Rowlands, Bethesda; 4, Keith Williams, Bryn; 5, Sioned Hughes, Llanbedrgoch; 6, Margaret Williams, Bryn; 7, Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd; 8, Carys Williams, Bryn; 9, Kevin Price, Glanbogely; 10, Glyn Price, Tan-y-graig; 11, Vera Price, Tan-y-graig.

Y raffl fawr: 1, Idris Parry, Deiniolen; 2, Ruth Hooby, 'Rallt Goch; 3, David Jones, 2 Bryn Hyfryd, Bwlch; 4, Gwyn Williams, Glaslyn, Llanrug; 5, Esme Jones, 24 Dôlafon; 6, 4 Dôlafon; 7, Joyce Jones, Bod Elan; 8, Meryl, Ogwen Taxis; 9, Dafydd Rowlands, Ogwen Taxis; 10, 4 Dôlafon; 11, Mrs Williams, Pant Afon; 12, Darren, Min-y-don, Brynrefail; 13, E. Jones, Bryngwran; 14, Jill Callaghan, Llys-y-gwynt; 15, Michael Bellini; 16, Audrey Maclellan, Bryn Awelon. Raffl ar wahân: Mrs Julie Rowlands, Bethesda.

Ysgol Cwm-y-glo: Ymwelodd Cwmni Theatr y Frân Wen â'r ysgol ddechrau'r tymor. Perfformiwyd 'COPACOCO' i blant bl. 3, 4, 5 a 6 i gychwyn ar eu thema y tymor hwn. Cafwyd darlun byw iawn o fywyd mewn dinas yn Ne America.

Fel rhan o'u gwaith thema hwy ar 'Myfi fy Hun' cafodd y Babanod gyfle i groesawu tair mam atynt. Diolch i Mrs Fleetwood a David Michael, i Mrs Jones a Rhian ac i Mrs Callaghan

a Jessica.

Erbyn hyn mae gwersi offerynnau pres wedi dechrau yn yr ysgol. Yr hyfforddwr yw Mr Wyn Williams, Trefor, ac rydym yn falch o'i groesawu ef atom. Gobeithio y bydd Carys, Karrah, Matthew, Angharad, Arwyn, Keith a Gwynfor yn gwneud eu gorau iddo yn y gwersi.

Croesawn hefyd i Miss Dawn Roberts o'r Coleg Technegol ym Mangor. Mae hi'n dilyn y cwrs i Weinyddesau Meithrin. Treuliodd Miss Yvonne Jones wythnos o brofiad gwaith yn nosbarth y Babanod. Diolch iddi am ei chyfraniad.

Cawsom sgwrs a ffilm ddifffyr iawn yng nghwmni Miss Nia Jones ar waith Mudiad Barnado yng Nghymru. Dosbarthwyd amlenni y Fasged Siopa i bob un o'r plant. Bydd casgliad ein Gwasanaeth Diolchgarwch hefyd yn cael ei gyflwyno i Barnado eleni.

Enillydd gwobr gyntaf Clwb yr Ysgol am fis Medi oedd Mrs Elisabeth Hughes, Dôlafon, gyda'r ail wobwr yn mynd i Mrs Margaret Williams, Bryn.

Carem ddiolch i chwi rieni a chyfeillion am gefnogi ein Ffair Lyfrau eto eleni. 'Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Croeso: Croesawn Colin ac Ann Saynor i'n plith. Maent wedi cartrefu yn 2 Tai Tanycoed.

Marwolaethau: Ar Fedi 25ain bu farw Mr Gwilym Rees Hughes, Oerddwr, ar ôl gwaeledd hir. Bu'r angladd ar Fedi 29ain yng Nghapel Tanycoed gyda'r Parchg John Glyn yn gwasanaethu, ac yna ym mynwent Caeathro. Cydymdeimlwn a'i wraig a'r plant a'r teulu yn eu profedigaeth.

Ar Hydref 1af bu farw Mr Meurig Jones, Bro Rhyddallt, gynt o Gwelfor. Bu ef a'i wraig, Mrs Sally Jones, yn gofalu am gapel Tanycoed am amser. Cydymdeimlwn â'r plant a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Gwellhad: Dymunwn wellhad llwyr a buan i bawb sydd yn wael yn yr ardal.

Llongyfarchiadau i Kelly a Lindsey, Awelfryn; Siwan, Gwenan a Guto, Pant Bryngwyn, ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Llanrug. Mae Guto wedi derbyn Tlws Emma Bernard am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

GERDDI GLASCOED

(Ger Capel Glascoed)
PENISARWAUN

I'ch gardd
fod ar ei gorau
galwch heibio
neu ffoniwch
870453

Geni • Bedyddio • Iŵed • Priodas

Achlgyr arbennig?
Anrheg unigryw?
Beth am un o sampleri.

**PWYTHAU
CAIN**

Cynllunir pob samplwr
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

Hefyd gwniadwaith o bob math
gwned dillad, newidiadau, ffenni, a.y.g.b.

Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau o Farddoniaeth

CHWILOTA CERDDORIAETH A CHERDDORION



Mae'n amlwg i'r nodiadau am y llyfr a gyhoeddwyd o donau i'w canu mewn angladdau yn y fro wedi ennyn diddordeb nifer o ddarllenwyr. Daeth dau lythyr i law, a derbynias nifer o alwadau ffôn. Ym meddiant Mrs B. Evans, Llys y Gwynt, Penisarwaun, mae copi o gân 'Y Gwanwyn'. Fe'i cyfansoddwyd gan Evan E. Owen, Ebenezer, a'i chyhoeddi yng Nghaernarfon gan Jarret Roberts. Roedd yn costio chwe cheiniog i'w phrynu, a chynnyrch buddugol Cylchwil Lenyddol Deiniolen, Nadolig 1873. Roedd Jarret Roberts yn cadw siop offerynnau cerdd yng Nghaernarfon, ac hefyd yn rhoi gwersi cerddoriaeth. Galwai ei siop yn 'Music Warehouse'. Nid oes gan Mrs Evans unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r cyfansoddwr. Tybed all un o'r darllenwyr ein goleuo?

Yn ein meddiant hefyd mae copi o'r anthem 'Y Mab Afradlon' a gyhoeddwyd yn Ebrill 1883 am bedair ceiniog a dimai. Y cyfansoddwr oedd Eos Llechyd. 'Roedd Eos Llechyd yn gerddor eglwysig adnabyddus yn ei ddydd — bu'n gurad Llanberis yn 1878 a Phentir yn 1888. Ei enw oedd Owen Humphrey Davies ac fe'i ganed yn Llanllechid yn 1828. 'Roedd wedi cyfansoddi anthem cyn bod yn 17 oed. Fe'i penodwyd yn arweinydd côr eglwys Llanllechid ac yntau'n ddim ond ugain oed. Bu hefyd yn arwain gwyliau corawl eglwysig Llandaf, Caerfyrddin ac Aberteifi. Bu'n athro yng Ngholeg Hyfforddi Gogledd Cymru, Caernarfon, am wyth mlynedd. Ysgrifennodd nifer o erthyglau ar gerddoriaeth yn ychwanegol i'w gyfansoddiadau. 'Roedd galw mawr arno hefyd i fod yn feirniad mewn gwyliau cerddorol ac eisteddfodau. Fe'i claddwyd ym mynwent Nant Peris yn Awst 1898.

Galwai Jarret Roberts ei hun yn 'Pencerdd Eifion'. Un o'i gyfansoddiadau mwyaf poblogaidd oedd 'Yr Hogyn Gyrru'r Wedd' — y geiriau gan Mynyddog. 'Roedd yn enillydd cenedlaethol ar gyfansoddi.

* * *

Daeth yr ail lythyr oddi wrth Mrs Dilys Baylis, Llanberis, yn sôn am gerddor arall o'r fro, sef R. Lloyd Roberts, Brynrefail (Ffrwd Alaw). Ef gyfansoddodd y gerddoriaeth i eiriau gan Nellie Holland — 'Hiraeth y Cymro'. Ganed Nellie Holland yng Nghewn Mawr, Wrecsam, yn 1894, ond bu'n byw yn Llanberis, ac yno y bu farw yn 1965. Hi oedd yn gyfrifol am y geiriau Cymraeg a'r Saesneg i'r gân. Yn ôl Mrs Baylis, ysgrifennwyd y geiriau ganddi i'w brawd a oedd yng Ngogledd America. Canwyd y gân yno gan gôr meibion mewn rhyw fath o eisteddfod. Merch i Nellie Holland yw Mrs Gloria Pitts, Llanberis.

Mae Henry David Thomas wedi ei gladdu ym mynwent Macpelah yn ôl galwad ffôn a gefais gan Mrs E. M. Williams, Deiniol Road, Deiniolen. Roedd yn byw yn Pencraig, Brynteg, Clwt-y-bont, ac yno y bu farw fis Ebrill 1923 yn 77 oed. Bu'n flaenor yng Nghapel Disgwylfa am 45 mlynedd ac yn arweinydd y gân yno am 48 mlynedd. Roedd yn briod â Margaret — un o deulu Brynteg — ac yno yr aeth H. D. Thomas ar ôl priodi. 'Roedd iddynt fab o'r enw David Henry Thomas, a'i fab yntau

oedd Henry Peter Thomas. Creda Mrs Williams mai un o deulu Penbont oedd H. D. Thomas. Oes perthnasau i'r teulu yn yr ardal heddiw all gadarnhau hyn?

Gyda diolch i'r dair ohonoch am eich diddordeb. Mae'n amlwg fod gwybodaeth gan nifer o'r darllenwyr am gerddorion a cherddoriaeth yn y fro. Beth am fwy o sylwadau? Oes rhywun â gwybodaeth am y corau fu yn yr ardal; neu'r cerddorfeydd; neu'r bandiau? Cofiwch anfon nodyn (maddeuwch y gair mwys!)

* * *

FFYNNON RIRID

Yn ystod y mis hefyd, derbynias lythyr cynhwysfawr gan Mr Stanley Roberts, Hafod Wen, Glanffynnon, Llanrug, ynglŷn â Ffynnon Ririd. Dywed i'r diweddar Athro T. Jones-Pierce 'gael llond boc mawr o Rentals o'r gwahanol drefi canoloesol yn Arfon. Roedd hyn cyn iddo eu catalogi a'u gosod at ddefnydd y cyhoedd yn y Llyfrgell Genedlaethol'. Bu Mr Roberts yn helpu'r Athro i leoli rhai o'r enwau yn ardal Llanrug. Ymhlith yr enwau roedd 'ALLT FFYNNON RIRID'. Mae Mr Roberts yn awgrymu mai 'Rallt, Ceunant, sydd yma, ac mai'r afon sy'n llifo oddi yno, ar lethrau'r Cefn Du, ac kymlaen heibio i Dyddyn Rhyddid (hen enw = Rhirid) yw Afon Ririd. Ond yn y Rentals (sydd wedi ei catalogi dan gyfrol o gasgliad Plas Llanfair a Brynoddol — mae copi o'r catalog ar gael yn Archifdy Caernarfon) mae cyfeiriad at dir rhwng Allt Ffynnon Ririd a'r Felin Wen ger y Bont Rug. Mae hyn yn awgrymu mai yn ardal Pontrug yr oedd y ffynnon.

Onid afon Ifon yw enw'r afon sy'n llifo o Gefn Du ar draws Parc Minffordd ac ymlaen am Blastirion a Phontrug? Mae Glan neu Glyn Ifor yn enw ar dŷ ym Mhontrug. Wrth gwrs, gall yr afonig fechan sy'n llifo drwy dir Caerweddus ac ar hyd ochr Lôn Tyddyn Rhyddid cyn ymuno â'r afon Ifor fod ag enw iddi — Ririd? Tybed? Diddorol fyddai cael amser i ymchwilio ymhellach i'r hen enwau hyn. Yn sicr, mae'r Rentals o Gasgliad Pls Llanfair a Brynoddol yn cyfeirio at yr ardal rhwng Pontrug, Rhosbodrual a Chaeathro, gan mai yno roedd y rhan fwyaf o diroedd Plas Llanfair o fewn terfynau plwyf Llanrug.

Yn sicr, byddaf yn dychwelyd at rai o'r enwau a gofnodir yn y Rentals hyn — a diolch o galon i Mr Roberts am eu cofnodi.

Cofiwch, os oes sylwadau neu ymholiadau gennych ar unrhyw agwedd o hanes lleol, anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (0286 673515).

Cefnogwch ein Hysbysebwy

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

CÂN YSGAFN FUDDUGOL YN EISTEDDFOD LLANRUG, 1993

Y PAPUR BRO

Peth braf yw rhannu stori
Bu'n arfer ers cyn co',
A lle sy'n well i'w darllen
Nag yn y Papur Bro?

Yn fisol daw i'ch aelwyd
Fe'i cludir ef yn rhad;
Am bump ar hugain ceiniog
Mae'n fargen neb a'i gwâd.

Ceir ynddo hanes bywyd
O'r geni hyd y bedd,
Penillion coffadwriaeth
I'r rhai sydd 'nawr mewn
hedd.

Penblwyddi'r plant gofnodir
O flwydd i'r deunaw oed
A phawb sy'n dathlu canrif
Grybwyllir yn ddi-oed.

Pan fydd y ferch yn priodi
Rhaid anfon llun yn siŵr
Er mwyn i'r byd a'r betws
Gael golwg ar ei gŵr.

Enillwyr Eisteddfodau
A restrir yn eu tro
Ni sonir am rai'n sorri
O fewn y papur bro.

Ceir ynddo luniau llwydaidd
O fywyd fel y bu:
Cryw chwarel, dosbarth ysgol,
A hanes ambell dŷ.

Y Bugail yn ei golofn
Sy'n cyfarch pawb o'i braidd,
A'r garddwr a rydd gyngor
Ar godi'r chwyn o'r gwraidd.

Ond problem pob golygydd
Yw sgŵp y ddalen flaen:
Rhaid cael rhyw stori fachog
A'i dwedyd gyda graen.

Fel unrhyw bapur pwysig
Chwaraeon geir tu ôl.
Mae Mêt yn siwr o enwi
Pob un sy'n sgorio gôl.

Bydd tynnu coes gan 'Draenog'
Os digwydd rhywbeth ffôl,
A stori ddaw 'mhen amser
I dalu'r pwyth yn ôl.

Tudalen sydd i'r ifanc,
Cartŵn a jôc a phôs;
A gwobr geir am ddarlun
O Mam neu Santa Clôs.

Cewch ddweud eich pwt drwy
lythyr,
Cewch gyfarch ffrind ar gân.
Cewch hysbesebu'ch nwyddau
Ac oll mewn diwyg glân.

Os ewch ar daith ddiddorol
Rhaid 'sgwennu pwt i 'Co.
Ceir gwersi daearyddiaeth
Rhwng cloriau'r papur bro.

Rhaid tynnu cap i'r dewrion
Sy'n ddiwyd wrth y llyw,
Ymroddiad gwirfoddolwyr
I gadw'n hiaith yn fyw.

Pwy yw'r gohebwyd lleol
A'r golygyddion gwiw?
Ai Dylan lor a'i debyg?
Na. Rhai fel chi yw'r criwl!

BARDD COCOS



THE
**SEIONT
MANOR
HOTEL**

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDDEN

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

Swper rhamantus i
ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau
dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu
swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r
teulu
Gwledd brodas
fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell
ffitrwydd
Ymlacio ym mar y
llyfrgell

Eisteddfod Bentref Llanrug

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar nos Wener, 8 Hydref 1993 yn Ysgol Uwchradd Brynrefail a'r beirniaid oedd — Cerdd a Cherdd Dant: Delyth Haf Rees; Adrodd, Barddoniaeth a Rhyddiaith: Siân Mair Williams; Gosod Blodau, Coginio a Thecstiliau: Rhian Ellis Owen; Arlunio a Thri Dimensiwn: Siân Owen; Dawns: Gareth Jones; Ffotograffiaeth: Bryn Jones. Y Cyfeilydd oedd Olwen Jones.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i lwyddiant yr Eisteddfod.

Dyma'r canlyniadau —

Unawd dosbarth derbyn: 1, Elin; 2, Llinos; 3, Eifion; 4, Rhys, Sioned, Tracey. **Adrodd dosbarth derbyn:** 1, Llinos; 2, Elin; 3, Eifion; 4, Sioned, Rhys, Tracey. **Unawd cyn oedran ysgol:** 1, Gemma; 2, Lowri; 3, Dewi, Ffion A., Lisa; 4, Ffion Eleri, John. **Adrodd cyn oedran ysgol:** 1, Dewi; 2, Lowri, Gemma; 3, Ffion, John; 4, Lisa, Jennifer, Stephanie, Ffion Eleri. **Unawd blwyddyn 1 a 2:** 1, Natalie; 2, Fflur; 3, Lyndsey; 4, Ceri, Guto; 5, Celfyn, Ellen. **Cadair Lowri Pritchard:** Natalie Blanchard. **Adrodd blwyddyn 1 a 2:** 1, Megan; 2, Natalie; 3, Lyndsey; 4, Ceri, Guto, Fflur. **Unawd Blwyddyn 3 a 4:** 1, Sioned. **Adrodd blwyddyn 3 a 4:** 1, Sioned; 2, Geraint; 3, Gareth; 4, Siôn. **Unawd piano 3 a 4:** 1, Siôn Emyr. **Unawd blwyddyn 5 a 6:** 1, Siân. **Unawd ar unrhyw offeryn pres i oedran ysgol gynradd:** 1, Donna. **Parti dawns werin i oedran ysgol gynradd:** 1, Dawnsywr Bach Disgwyllfa. **Unawd cerdd dant (a) blwyddyn 7-11, (b) blwyddyn 12 a throsodd:** (a) 1, Michelle; (b) 1, Rolant Wynne. **Unawd piano blwyddyn 5 a 6:** 1, Elin; 2, Siân; **Cyflwyniad llafar digrif:** 1, Parti Awen. **Parti unsain i blant oedran ysgol gynradd:** 1, Parti Di-enw. **Unawd oedran blwyddyn 7-11:** 1, Michelle. **Adrodd unigol oedran blwyddyn 7-11:** 1, Michelle; 2, Kelly. **Grŵp offerynnol:** 1, Yr Old Stagers; 2, Parti Llŷr. **Siarad cyhoeddus:** 1, Gwion; 2, Kelly. **Unawd piano i oedran blwyddyn 7-11:** 1, Michelle; 2, Steffan; 3, Rhian; 4, Nicola, Emma; 5, Iona, Ieuan. **Dawns werin unigol:** 1, Siân. **Cân werin:** 1, Michelle. **Unawd ar unrhyw offeryn heblaw piano i oedran blwyddyn 7-11:** 1, Gwion; 2, Gareth; 3, Emma. **Cyflwyniad llafar digrif (a) oedran ysgol gynradd; (b) blwyddyn 7-11:** (a) 1, Siôn, Swyn; (b) 1, Parti Lleifor a Pharti Bron y Nant; 2, Kelly, Emma. **Unawd ar unrhyw offeryn:** 1, Frank. **Cyflwyniad cerddorol lleisiol:** 1, Merched y Wawr; 2, Meibion y Machlud. **Dawns werin i barti (a) oedran ysgol gynradd; (b) oedolion:** (a) 1, Dawnsywr Disgwyllfa; (b) 1, Parti 'heb ymarfer digon'. **Raffi:** Sioned Larsen.

Celf a Chrefft — Arlunio oedran ysgol feithrin: 1, Gemma Markham; 2, Lowri Ann Hughes Jones; 3, Mari Deiniol Evans. **Arlunio dosbarth derbyn:** 1, Llinos Roberts; 2, Fiona Pitts. **Arlunio bl. 1 a 2:** 1, Fflur Angharad Griffith; 2, Meilyr Siôn Owen; 3, Guto Rhun; 4, Natalie Blanchard, Mark Pitts; 5, Lynsey, Iwan Machno Lloyd. **Arlunio bl. 3 a 4:** 1, Siôn Emyr; 2, Dion Siôn Owen; 3, Dylan Wyn, Eifion Williams. **Arlunio bl. 5 a 6:** 1, Guto Humphreys; 2, Elen Davies; 3, Meleri Griffiths, Nia Williams; 4, Siân Green, Iwan P. Jones. **Arlunio bl. 7 ac 8:** 1, Iona Williams; 2, Nicola Edwards; 3, Ceri Jones. **Arlunio bl. 9 a 10:** 1, Ieuan Green. **Cwpan Emma Bernard:** Guto Siôn Humphreys. **Tri dimension — cyn oedran ysgol a dosbarth derbyn:** 1, Sioned Medi Hughes; 2, Ffion Williams, Fiona Pitts; **Bl. 1 a 2:** 1, Celfyn Edwards, Huw Machinnon, Daniel Jones; 2, Meilyr Owen, Huw Machinnon; 3, Rhys Williams, Iwan Machno Lloyd; 4, Guto Rhun, Natalie Blanchard, Mark Pitts. **Bl. 3 a 4:** 1, Gareth Roberts, Iwan Rhys Williams, Siôn Emyr; 2, Dion Siôn Owen, Dylan Wyn. **Bl. 5 a 6:** 1, Iestyn Williams; 2, Hefin Roberts. **Bl. 7 ac 8:** 1, Nicola Edwards; 2, Emma Lloyd Davies; 3, Gareth Lloyd Davies. **Gwnïo — Bl. 1 a 2:** 1, Fflur Angharad Griffith; 2, Ellen Williams. **Bl. 3 a 4:** 1, Bethan Mackinnon; 2, Llio Angharad Hughes; **Bl. 7 ac 8:** 1, Emma Lloyd Davies. **Bl. 11 a 12:** 1, Nicola Gibbins. **Agored:** 1, Anne Gibbins; 2 a 3, Bethanne Williams; **Gwau:** 1, Anne Gibbins; 2, Rhianon Evans. **Coginio — Bl. 1 a 2:** 1, Huw, Fflur Angharad Griffith; 2, Guto; 3, Celfyn Edwards, Meilyr; 4, Natalie, Huw, Daniel Jones, Iwan Machno, Sarah. **Bl. 3 a 4:** 1, Bethan, Gemma; 2, Dion; 3, Siôn, Gareth Roberts; 4, Geraint Iwan, Siôn Emyr. **Bl. 5 a 6:** 1, Siân Green, Meleri Griffiths; 2, Iwan P. Jones; 3, Elin Dafydd, Hefin Roberts. **Bl. 7 ac 8:** 1, Ceri Jones, Gareth Ll. Davies; 2, Emma Ll. Davies; 3, Iona Williams, Gwion Iwan. **Bl. 9 a 10:** 1, Rhian Green. **Merched:** 1, Yvonne Pitts; 2, Julie Jones; 3, Linda Jones; 4, Carys

Wynne. **Dynion:** 1 a 2, Rolant Wynne; 3, Wyn Ll. Davies. **Jam:** 1, 2 a 3: Eirianwen Thomas. **Chutney:** 1, Yvonne Pitts; 2, Eirianwen Thomas; 3, Pat Jones. **Gwin:** 1, Brian Cook;

Chwarae'n Troi'n Chwerw

Chwarae teg, 'roedd yn gynhebrwng hynod o barchus. 'Roedd dy ffrindiau yno i gyd i ddweud eu ffarwél olaf wrthyt. 'Roedd dy fam a'th dad gyda rith gan dy rieni. Dyna'r unig un gëst ti. 'Roedd dy fam a'th dad yn meddwl y buaset yn dymuno i'r arian fynd i elusen 'Anorexics' — wedi'r cwbl, pe buasai'r arian yn y Gronfa wythnosau'n ôl efallai na fuaswn yn galaru ar dy ôl yn awr.

Chwe mis yn ôl y dechreuodd yr holl beth. Bore Llun oedd hi a phawb o'r 'gens' wedi cyfarfod y tu ôl i'r cwt beiciau amser cinio. 'Roeddem yn sgwsio am bob peth dan haul. Wyt ti'n cofio dweud wrthym am y ffantasi gëst ti un noson am yr athro celf? Buasai'n ddigon i godi gwallt pen dy fam! Yna crybwyllodd Anest ei bod wedi rhoi owns neu ddwy ar ben ei phwysau a buasai'n gwneud rhywbeth i gael mynd yn ôl i 'seis ten'. 'Doedd yr un ohonom yn fodolau, a dweud y lleiaf, a gwnaethom lw i stopio bwyta y 'rwts ratsh' sydd yn gyfrifol am y cnawd nad oedd yn angenrheidiol, oedd yn brysus setlo o gwmpas ein gwasg. Cymryd y peth yn ysgafn wnaeth pawb heblaw amanat ti. 'Welais i erioed yr olwg benderfynol yna arnat ti o'r blaen. Ar yr adeg yna 'roedd ti'n edrych fel pe buaset yn gallu trechu'r byd ar dy ben dy hun. Pe bawn i ond yn gwybod...

Aeth deuddydd heibio. 'Roedd yr holl sôn am y deiet wedi mynd yn angof erbyn hyn. Ond i ti, 'roedd cael gwared o'r cnawd o'th amgylch mor bwysig â bywyd ei hun.

Fe ddechreuast welw. 'Roedd y gwrid a oedd wastad ar dy ruddiau yn prysur ddiplannu. Prin yr oedd yn gwenu, heb sôn am chwerthin. I fod yn hollol onest, edrychet fel drychiolaeth.

Pob tro y deuai'n amser cinio fe ddiplanet i rywle, a doedd 'run copa walltog yn dy weld tan amser cofrestru. Ceffyl blaen fuest ti erioed tan ychydig wythnosau'n ôl. 'Roedd fel petaet eisiau cau dy hun o awyrgylch gymdeithasol yn gyfan gwbl.

Mynd aeth y nosweithiau hwyr yn y dafarn heb dy gwmni. Prin yr oedd yn mynd i'r Clwb Ieuencid. Dechreuais boeni. 'Roedd dy ddillad yn edrych fel sach tatws amdanat, a buost yn ddewr iawn yn cymryd dy herio gan ddisgyblion haerllug ddiwrnodau olaf dy fywyd poenus a gwag.

Efallai bod bai arnaf fi — dim yn sylweddoli bod pob pryd bwyd yn hunllef iti. Pe bawn i wedi dy rybuddio di o'r niwed 'roedd ti'n

2, 3 a 4: Eirianwen Thomas. **Gosod Blodau:** 1, Judy Roberts, Sally Ll. Davies; 2, Sally Ll. Davies. **Ffotograffiaeth — oedran ysgol gynradd:** 1, Llio Angharad Hughes; 2, Elin Dafydd; 3, Dion Siôn Owen; 4, Ffion Jones, Natalie Blanchard. **Ffotograffiaeth — ysgol uwchradd:** 1, Emma Ll. Davies. **Ffotograffiaeth — agored:** 1, Malcolm Pitts; 2, Yvonne Pitts, Siôn Humphreys; 3, Siôn Humphreys.

Llenyddiaeth. Y Gadair: Rolant Wynne. **Tlws yr Ifanc:** Delyth Humphreys. **Rhyddiaith bl. 3 a 4:** 1, Siôn Emyr; 2, Gemma Victoria; 3, Geraint Iwan. **Barddoniaeth bl. 3 a 4:** 1, Geraint Iwan; 2, Gemma Victoria; 3, Ceri Roberts. **Rhyddiaith bl. 5 a 6:** 1, Elin Dafydd; 2, Siân Green; 3, Stephen Williams. **Barddoniaeth bl. 5 a 6:**

1, Elin Dafydd; 2, Nia Williams, Siân Green. **Rhyddiaith bl. 7 ac 8:** 1, Emma Lloyd Davies; 2, Steffan Evans; 3, Iona Williams. **Barddoniaeth bl. 7 ac 8:** 1, Emma Lloyd Davies; 2, Steffan Evans; 3, Iona Williams, Awen Humphreys, Lisa Schudlak. **Rhyddiaith bl. 9 a 10:** 1, Delyth Humphreys; 2, Rhian Green; 3, Gwennan Mair Humphreys. **Barddoniaeth bl. 9 a 10:** 1, Lynwen Hamer, Gwennan Mair Humphreys; 2, Siân Davies. **Rhyddiaith bl. 11 a 12:** 1, Llŷr S. Roberts; 2, Siwan Humphreys. **Parodi:** 1, Carys Wynne; 2, Rolant Wynne. **Cân Ysgafn:** 1, Rolant Wynne; 2, Mrs Butler. **Limerig:** 1, Rolant Wynne; 2, Mrs Butler, Carys Wynne; **Y Frawddeg:** 1 a 2, Rolant Wynne; 3, Carys Wynne. **Llinell Goll:** 1, Rolant Wynne; 2, Dafydd W. Thomas.

wneud i ti dy hun, cyn i'r peth fynd allan o'th ddwylo — mae'n bosibl y buaswn wedi achub bywyd — ond yn fwy na hynny, dy fywyd DI.

Dwi'n gwybod na wnest gyflawni hunan-laddiad yn llythrennol, ond ar y llaw arall, fe wnest ti gymryd dy fywyd yn dy ddwylo dy hun.

'Roedd y genethod eraill hefyd wedi sylwi dy fod wedi teneuo. Y trafferthion gest ti o'r blaen i wehyddu drwy ffrâm yn y gwersi ymarfer corff wedi cael eu datrys, llithret drwyddynt yn rhydd. Dydi hynny'n ddim i fod yn falch ohono wedi cysidro beth oedd y canlyniadau. Yr asgwrn cefn a fagaist yn ystod dy gyfnod yn yr ysgol wedi'i ddiinstrio.

Un atgof sy'n sefyll allan yw'r un pan aethom i barti yn nhŷ Geraint. 'Roedd ei rieni wedi mynd allan felly roedd y tŷ yn nwylo Geraint. Wrth gwrs, os rhoi di dŷ i fachgen pedair-ar-bymtheg, gyda'i ffrindiau, be gei di? Wrth gwrs un helbul ar ôl y llall.

Erbyn diwedd y noson roedd pawb yn feddw gaib. 'Doedd neb yn ddigon sobr i hyd yn oed sefyll, heb sôn am gerdded adref. A dweud y gwir nid oeddwn i yn teimlo gant-y-cant. 'Roedd y tomatos wedi'i stwffio yn bygwth dod yn ôl i fyny a'r gwydriad o'r pwnsh wedi mynd i' mhen i braidd. Teimlais braidd yn gyfogleyd. Brasmagais i fyny'r grisiau. 'Roedd drws yr ystafell 'molchi ar gau, ond nid ar glo. Agorais y drws a dyna lle'r oedd ti wedi llewygu. Yr adeg honno y sylweddolais i mai dim ond cnawd am esgryn oedd erbyn hynny. 'Roedd yn rhaid gwneud rhywbeth i'th helpu. Am ryw reswm, pe buaswn yn gwybod yr adeg hynny beth oedd yn mynd i ddigwydd iti, mi fuaswn wedi troi'n ôl. Yr unig beth oedd yn bwysig y funud honno oedd dy gael yn ôl fel yr oedd fisoedd ynghynt hyd yn oed os oedd hynny'n golygu cael mwy o gnawd.

Y bore canlynol ar ôl y parti 'roedd gen i andros o gur yn fy mhen i'm hatgoffa o lle y bwm y noson cynt. Ar ôl oriau yn fy ngwely ac 'Alka Seltzer' i leddfu'r boen, 'roeddwn mewn cyflwr digon sobor i ystyried be fuaswn yn gallu i'wneud i'th helpu.

Wyt ti'n fy nghofio yn dod i'th weld? Fe ddywedais wrthyt pa mor bwysig oedd bod yn iach, waeth pa mor fawr oedd. Edrych arnaf yn hurt wnest ti ar y dechrau, ond ar ôl tipyn o berswad, fe wnaethom gyfaddawdu. Yr oedd yn fodlon ymweld â'r meddyg os na wnawn ddweud wrth neb. Felly daethom i gytundeb.

Chefais i byth wybod os oedd ti'n

dweud y gwir. Mwmian dy fod wedi cael tabledi wnêst ti. Beth oedd y tabledi yma, 'wn i ddim, ond yn fy marn 'roedd et eisiau mwy na thabledi i dy roi yn ôl ar dir y byw. Ond pwy ydw i i roi fy marn ar feddygaeth? Fedra i ddim dweud y gwahaniaeth rhwng asprins a morffin heb sôn am eu pwrpas.

Beth bynnag — ble 'rwyd ti? Wyt ti'n chwarae telyn ar 'gwmwl naw' ynteu yn croesawu eneidiau pobl wrth y giât? 'Roedd dy farwolaeth yn sioc fawr i'r pentref i gyd. 'Roedd pawb yn dy weld fel geneth hapus, bywyd diboen gen ti, ond y gwir oedd dy fod yn anhapus dros ben, a bod dy fywyd yn un gyfres o boenau ar ôl ei gilydd.

Pe buaswn yn gallu troi'r cloc yn ôl a gwneud i ti sylweddoli mai dim ond pwn i ladd amser oedd y busnes 'caloriau' yna. Ond wedi'r cwbl dim ond pe buaswn... yw'r holl beth. Tydi hi ddim yn bosib troi'r cloc yn ôl ac 'rwyd ti wedi... wedi...

Sut allet ti wneud hyn i chdi dy hun? Mae'n well bod yn 'nobl' a hapus na bod yn denau fel brwynen a theimlo bod dy fyd yn dymchwil.

Mae dy rieni yn dechrau codi'r darnau ac yn dod yn ôl i realiti. Fe gawsant ysgytwad ofnadwy trwy dy golli fel hyn. Fedra i ddim derbyn y lle gwag sydd wrth fy ochr yn y gwersi Hanes.

Mae'n siwr fy mod i'n swnio fel tiwn gron, a phe baet yma hefo mi rwan buaset yn gwneud imi gau fy ngheg.

Yr 'os' mwyaf ydy: Os y buaswn wedi cael y neges drosodd i ti mai dim ond hwyl diniwed oedd colli pwysau byddai pethau'n wahanol. Freuddwydais i erioed y buaset yn ei chymryd cymaint o ddiifri. Mae'r peth wedi troi'n hunllef.

Gobeithio'r nefoedd nad oedd ti'n dioddef. Buasai'r ffaith dy fod yn diodda tra 'roeddwn i yn ei 'jolihoitian' hi yn gwneud i fy stumog i droi. Tra 'roeddwn i yn sgloffio amser cinio a the, roedd tithau'n meddwl am esgusodion i'w gwneud erbyn amser y pryd nesaf.

Mae cryn amser wedi mynd erbyn hyn. Mae pawb wedi mynd yn ôl i drefn bywyd. Codi, brecwast, cinio, te, cysgu — troi mewn cylch. Ond i ti — dim ond codi a chysgu oedd dy fywyd. Mae'n siwr ei bod yn rhyddhad mawr cael y baich oddi ar dy ysgwyddau. Os wyt ti'n hapus, fedra' i ddim gofyn mwy.

'Rwyf bellach yn ôl yng nghanol bywyd. Prysurdeb yn byrlymu, yn fy ngwthio ymlaen. Ond bob tro yr edrychaf yn ôl dros fy ysgwydd mae yna fwch... bwlch mawr.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Cludiant Cyhoeddus: Yn dilyn penderfyniad cwrnni Crosville i beidio rhedeg gwasanaeth bysiau o Ddinorwig i Gaernarfon o hyn ymlaen rhwng 9 y bore a 5 yr hwyr mae'r Cynghorydd Pat Larsen, gyda chefnogaeth Cyngor Sir Gwynedd, yn ceisio adfer y sefyllfa. Ar hyn o bryd mae trafodaethau yn cael eu cynnal rhwng y Cyngor Sir a'r gwahanol gwmnïau bysiau yn y gobaith y gwelwn ailgychwyn y gwasanaeth. Dyma enghraifft eto o gefn gwlad yn colli gwasanaethau hanfodol. 'Rydym fel pentrefwyr yn gwybod o brofiad beth yw colli ysgol a swyddfa bost leol. Pa wasanaethau eraill sydd yn y fantol tybed? Bydd rhaid ceisio gwarchod y gwasanaethau sylfaenol hyn neu fe fydd yn anodd iawn i bobl fyw yng nghefn gwlad Cymru.

Diolchiadau:

Dymuna Ellen Thomas, Buarth Newydd, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli chwaer annwyl. Llauer o ddiolch am yr holl ofal a gafodd tra yn wael.

Dymuna Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll am y cardiau a'r anrhegion gwerthfawr a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 60 oed. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dod a Phrynu: Yn ddiweddar sicrhawyd elw ariannol o £220 i Fenter Fachwen yn sgîl cynnal gweithgaredd 'Dod a Phrynu' a gynhaliwyd yn hafan Elan, trwy garedigrwydd Mrs Dilys Jones. Cadeirydd y noson oedd Mr Dafydd Ellis, Brynrefail. Diolchodd yn arbennig i Mrs Bet Jones, Lyndale, Ffordd-yr-orsaf, Llanrug, am drefnu'r noson ac i bawb a gefnogodd a chymryd rhan. Diolch yn fawr.

Newyddion Da: Dyna oedd ymateb aelodau Eglwys St. Mair o glywed y bydd y Parchg Tegid Roberts yn cael ei sefydlu fel Offeiriad mewn Gofal i blwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun ar nos Fawrth, Tachwedd 23ain, am 7 o'r gloch yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Eisoes mae'r Parchg Tegid Roberts wedi bod yn gaffaeliad mawr i'r plwyf ac edrychwn ymlaen at cael cydweithio ag ef yn y dyfodol.

Cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch ar brynghawn Sul, Hydref 17eg, a chroesawyd un o fechgyn y pentref yn ôl i'r gynefin, sef y Parchg Idris Thomas, Deon Gwlad Arfon. Diolch iddo ef am ei neges amserol ac i bawb am eu cefnogaeth i'r gwasanaeth. Diolch i bawb am eu

rhoddion o ffrwythau, llysiau a blodau ac fe drefnwyd i'r holl gynnyrch gael eu cyflwyno yn rhodd i breswylwyr Plas Pengwaith, Llanberis. Cafwyd ymateb da i'r casgliad ariannol tuag at waith Cymdeithas y Beiblau ac mae'r diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.

Y Gymdeithas Lenyddol Undebol: Yn ystod mis Tachwedd dyma yw'r rhaglen sydd wedi ei threfnu - Nos Iau, Tachwedd 4: Miss Alice E. Williams, Caernarfon, yn sôn am ei theithiau; nos Iau, Tachwedd 18: y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon yn siarad am hiwmor. Cofiwch gefnogi'r nosweithiau hyn.

Dosbarth Nos: Erbyn hyn daeth tymor dosbarth nos Cymdeithas Addysg y Gweithwyr i ben yn Ninorwig. Dyfarniad yr oll o'r aelodau oedd i'r darlithoedd fod yn hynod ddiffrwyd ac addysgiadol. Cafwyd amrywiaeth o bynciau yn ymwneud â hanes yr ardal, o gerdded ffiniau'r plwyf, pigion o fywyd-bob-dydd Dinorwig ganrif yn ôl, all o Lyfr Cofnodion Thomas Roberts, Bryn Sardis, i lofruddiaeth trwy wenwyno ym Mryngwyn. Ond, yn goron ar y cyfan trefnodd yr athro, Mr D. Whiteside Thomas, i'r dosbarth gael ymweld â'r Archifdy yng Nghaernarfon ar y noson olaf.

Daeth yr Archifydd, Mr Gareth Heulfryn Williams, ei hun i gyfarfod aelodau'r dosbarth a'u tywys oddi amgylch. Dangoswyd tunnelli o bapurau a dogfennau yn ymwneud â phob math o bynciau, wedi eu gosod yn drefnus ar ugeiniau lawer o silffoedd. Cafwyd golwg ar ddogfennau o Ystad y Faenol ac o Chwael Dinorwig, a phapurau a mapiau plwyf Llanddeiniolen. Dangoswyd sut yr adnewyddir dogfennau hynafol a bregus, ac hefyd y system awyru sydd mor angenrheidiol yn yr adeilad er cadw'r holl bapurau a lluniau gwerthfawr yn sych. Un o'r trysorau mwyaf gwerthfawr a welwyd oedd memrwn o'r 15ed ganrif o Ystrad Mechell, ger Dinbych. Hwn yw'r memrwn hynaf sydd ar gael yn y Gymraeg.

Hoffem ddiolch yn fawr i Mr Dafydd Whiteside Thomas a Mr Gareth Heulfryn Williams am roi cystal cyfle a chroeso i'r dosbarth, a rhoi diwedd glo mor deilwng i'r tymor.

**COFIWCH AM
EISTEDDFOD DEINIOLLEN
HYDREF 29 a 30**

ERIC JONES
PENISARWAUN
Ffôn: 872421

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

- ★ Prisiau rhesymol
- ★ Spreio tu mewn a thu allan
- ★ Estimates am ddim

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Ffôn: 871259

Eglwys Crist, Llandinorwig: Am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Tachwedd 23ain, fe sefydlir y Parchedig Tegid Roberts i ofalaeth plwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun.

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod ar Medi 21 o dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones a threuliwyd y prynhawn yn gwneud trefniadau ar gyfer y Nadolig a gweddill y tymor. Rhoddwyd y te gan Mrs Alwen Jones, Mrs Eirlys Ll. Jones a Mrs Megan P. Morris. Enillwyd y wobwr lwcus, rhoddedig gan Mrs Alwen Jones, gan Mrs Ellen Williams.

Yr ydym yn ddiolchgar dros ben i Mrs Jennie Williams am ei rhodd o lestri i ni i'w defnyddio yn y Clwb.

Cafwyd cyfarfod arall ar 5 Hydref, o dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones, pryd y cafwyd 'Moes a Phryn' lewyrchus iawn. Gwesteion y te oedd Mrs Hannah J. Thomas, Mrs Jane Jones a Mrs Glenys Roberts. Enillwyd y wobwr lwcus, rhoddedig gan Mrs Hannah J. Thomas, gan Mrs Mair Owen.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun, Hydref 4ydd, o dan lywyddiaeth y Parchg Tegid Roberts. Y gŵr gwadd oedd Mr Collwyn Williams, Swyddog Rhanbarthol Brigâd Dân Gwynedd. Cafwyd noson bleserus ac addysgiadol yn ei gwmni yn trafod diogelwch rhag tân yn y cartref. Diolchwyd i Mr Williams gan Miss Jean Moeller.

Yn ein cyfarfod nesaf ar nos Lun, Tachwedd 1af byddwn yn cynnal noson o 'Moes a Phryn'.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd noson agoriadol y tymor ar nos Lun, Medi 20fed, dan lywyddiaeth Mrs Beti W. Davies. Llonyfarchwyd Mrs Margaret Griffith, Cynfi, ar fod yn nain; a Mrs J. Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, ar fod yn hen-nain. Cyfeiriodd y llywydd at y rhodd o decell a dderbyniwyd gan Mr O. G. Roberts, Prifathro Ysgol Gwaun Gynfi. Trist oedd clywed na fydd Mrs E. Williams, aelod hynaf y gangen, yn ymaelodi â'r mudiad eleni ac fe estynnwyd dymuniadau gorau'r gangen iddi.

Cafwyd noson ddiddorol gan Mrs Nia Ellis Williams yn sôn am ei gwaith fel Uwch Swyddog Prawf. Diolchwyd iddi gan Mrs Iona Richards. Rhoddwyd y te gan Mrs Margaret Jones, Mrs Buddug Jones a Mrs Margaret Roberts.

Bydd y gangen yn ymweld â Theatr Gwynedd ar Hydref 26ain i fwynhau cwmni difyr Bryncoch.

Marwolaeth: Ddydd Sul, Hydref 3ydd, yn 92 mlwydd oed, bu farw Elizabeth Mary Lewis yn Ysbyty Eryri. Bu'r angladd ddydd Iau canlynol gyda'r gwasanaeth yng Nghapel Ebeneser, â'r Parchg John Pritchard yn gweinyddu, ac yna ym mynwent Macpela.

Dymuna Robert David a'r teulu ddiolch o galon i ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag atynt yn eu galar. Diolch i bawb am y blodau hardd a dderbyniwyd. Diolch yn fawr hefyd i Mr a Mrs J. Parry am eu caredigrwydd; i'r Parchg John Pritchard; Ifan Hefin Williams; Donald Jones; John B. Jones, organydd; ac hefyd i Myrddin Pritchard, Llanberis, am y trefniadau trylwyr.

Ebeneser: Mae golwg raenus iawn ar gapel Ebeneser erbyn hyn. Cafwyd to newydd ryw dair mlynedd yn ôl. A thros yr haf, fe osodwyd rhagor o ffenestri newydd sy'n golygu bod yr holl ffenestri wedi ei hadnewyddu erbyn hyn. Gosodwyd carped newydd hefyd. Mae'r capel yn edrych yn hardd iawn ar ei newydd wedd.

Diolchgarwch: Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch yng Nhefnysau ac Ebeneser ddydd Sul, Hydref 17. Y Parchg O. E. Evans, Llanfairpwll, oedd yn pregethu yng Nghefnysau yn y bore, ac yr oedd oedfa'r hwyr yng ngofal yr ieuencid (a rhai tipyn bach hŷn!). Chwirydd yr eglwys oedd yn arwain yr oedfa yn Ebeneser yn y bore, a'r bobl ifanc (a'r gweinidog sydd gryn dipyn yn hŷn!) oedd yn cymryd rhan yn yr oedfa gyda'r nos. Yr oedd y ddwy eglwys yn cydaddoli yn y prynhawn pan gynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch plant yr Ysgol Sul unedig.

Cyngor Eglwys: Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor newydd yn Ebeneser ar nos Lun, Hydref 11. Cynrychiolwyd pum eglwys y pentref mewn Oedfa Ddiolchgarwch. Arweinwyd yr oedfa gan Mr Tydfil Jones, Llywydd y Cyngor Eglwysig am y flwyddyn nesaf. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yng Nghefnysau, am 7 o'r gloch, nos Lun, Tachwedd 8, pan fydd y Parchg Dafydd Job, Bangor, yn rhoi sgwrs am ei ymweliadau ag eglwys ym Mhrâg yn yr hen Tsiecoslofacia.

**IEUAN
WILLIAMS**

**Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484**

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

**Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri**

am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun - Gwener
10.00 - 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch

**Llanberis 870922
neu Bangor 351427**

Y Gymdeithas Lenyddol: Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas Undebol yn cael ei chynnal yn Y Caban am 7 o'r gloch, nos Lun, Tachwedd 29, ac mae edrych ymlaen garw at gael cwmni John Ogwen yn y cyfarfod hwnnw. Dowch yn llw. Eisoes fe gafwyd dau gyfarfod y tymor hwn: y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda, a Mr John Owen, Crawiau, a ddaeth atom i siarad yng nghyfarfodydd Medi a Hydref.

Diolchiadau

Dymuna Terry a Ruth ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab Luke Wynford.

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Jennie Jones, 2 Hafod Olau, ddatgan ei diolchgarwch i bobl yr ardal am y caredigrwydd a'r llw cardiau a dderbyniasant yn eu profedigaeth. Diolch i'r Meddyg Parry am ei annwyldeb tuag ati, ac i staff y Clinic; hefyd i Mr Myrddin Pritchard, Llanberis am y trefniadau.

Dymuna Dylan a Wendy, Y Felinheli gynt, a Deiniolen, ddiolch yn fawr am y llw cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab, Gethin. Diolch hefyd i staff Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

Dymuna Donna Lewis, 100 Pentre Helen, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian, anrhegion a blodau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dod adref ar ôl ei damwain ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Ysgol Gwaun Gynfi: Yn ystod y tymor yma mae blwyddyn 4, 5 a 6 yn mynd i'r Ganolfan Hamddeng yng Nghaernarfon i gael gwersi nofio a thenis.

Hefyd rydym yn derbyn gwersi recorders gan Mrs Griffith.

Rydym wedi bod yn paratoi erbyn Eisteddfod Deiniolen. Rydym wedi bod yn adrodd, canu, arlunio ac ysgrifennu.

Daeth Nia Jones i'r ysgol i sôn am waith Dr Barnado. Rydym wedi casglu £107 i'r elusen Dr Barnado yn ystod ein gwasanaeth diolchgarwch ddydd Gwener, Hydref 22.

Rydym wedi bod yn casglu tocynnau W. H. Smith i gael llyfrau i'r ysgol ac rydym wedi casglu gwerth hanner canpunt o lyfrau.

Rydym yn casglu panel: 'Best Before End...' ar nwyddau Birds Eye i gael mwy o lyfrau i'r ysgol ac os oes gennych rai adref buasai'r ysgol yn ddiolchgar iawn o'u cael.

ELFED a THOMAS

Atgofion Parti Iolen

Ar nos Sadwrn, Mehefin 19, daeth cwmni ynghyd i Westy Glan-traeth i gofio am barti canu y buont yn aelodau ohono dros 40 mlynedd yn ôl. Mrs Catherine Hughes, 41 Y Wern, Y Felinheli, a anfonodd yr atgofion hyn atom am Barti Iolen. Diolch iddi am yr hanes. — Gol.

Fel y sonia Emyr Jones, gynt o'r Waunfawr, yn ei gyfrol *Canrif y Chwarelwyr*, fe godwyd llw o feirdd, actorion a chantorion ymysg chwarelwyr Arfon.

Un o'r cantorion hynny oedd fy nhad, sef Hughie Jones, 3 Gwyrfa Terrace, Deiniolen. Cofiaf lawer i noson fel y byddai yn chwarae'r hen organ bach oedd yng nghornel y parlwr; neu fel y byddai mam yn hymian Sol-ffa ac yntau yn dod i mewn gyda 'Englynion Coffa Hedd Wyn' neu 'Berwyn'.

Canu penillion (Cerdd Dant) oedd ei hoff ddiddordeb ac yn yr amser hwnnw fe gododd barti ohonom ni y genod i gystadlu o dan ddeunaw oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol i lawr yng Nghaerffili yn 1950. Dyma'r aelodau ar y pryd: Catherine Jones, 3 Gwyrfa Terrace; Norma Hughes (Eirlys), Clwt-y-bont; Helen Peris, Porth Gogledd; Maud Williams, 6 Gwyrfa Terrace; Kathleen Mai Jones, Maldwyn House; Gweneth Ellis, Caradog Place a Gracie Williams, 91 Pentre Helen.

Cawsom fynd bob dydd Sul, ar ôl te, i ymarfer yng Nghapel Disgwylfa,



Parti Iolen a'r dystysgrif am ennill yn Eisteddfod 1950.

ond erbyn hyn trist yw fod y capel wedi ei dynnu i lawr.

Fe lwyddasom i gael y wobwr gyntaf gyda beirniadaeth ardderchog, a gwobr o £2. Pwy, heddiw, a âi i lawr i Gaerffili am £2?

Cawsom lawer i gyda'r nos ddifyr yn ystod y gaeaf pan ddeuai Rol Williams ac Ifan Wyn, ei frawd, i fyny o Frynrefail gyda'r diweddar John Morris i ymuno yn y gân; a'r hwyl a gaem tan oriau mân y bore. Buom droeon yn cadw cyngherddau a nosweithiau llawen gyda Jack Maldwyn a Napier Williams o Benisarwaun a Gracie Williams yn cyfeilio gyda Rol yn arwain.

Buan iawn y diflanodd y blynyddoedd a'r merched wedi gwasgaru, priodi, a cholli cysylltiad â'u gilydd, ac wedi cyfnod o 43 o flynyddoedd penderfynais gysylltu â hwy. Dyma nhw erbyn hyn!: Catherine Hughes, Y Felinheli; Norma Read, Wrecsam; Helen Williams, Deganwy; Maud Williams, Bethel; Kathleen M. Ellison, Swindon; Gweneth Owen, Glan-traeth, Bodorgan; Gracie Jones, Rhydaman, Dyfed.

Addawodd pawb gwrdd yng Ngwesty Glan-traeth ar nos Sadwrn, Mehefin 19, a chafwyd gwledd heb ei hail. Llywyddwyd y noson gan Ifan Wyn ac fe ganodd y parti, ar fyr

rybudd, eiriau a ysgrifennodd fy mrawd, Walter Jones, Cyffordd Llandudno. Cyflwynwyd blodau i mam, sydd bron yn 89 oed, gyda dymuniad y parti iddynt gael eu rhoi ar fedd fy Nhad.

Diolch i bawb am wneud y noson yn un mor gofiadwy.

Dyma'r geiriau a ganwyd gan y merched yng Nglan-traeth ar noson y dathlu:

PARTI IOLEN

Melys wedi deugain mlynedd
Yw cael dyfod eto 'nghyd
I gael dathlu hen atgofion
Gyda'r genod oll i gyd.

Ffrindiau annwyl a chyfeillion
A'u cyfarchion yn ddi-ri
Yn Glan-traeth yr ŷm ni heno
Yn mwynhau ryw hwyl a sbri.

Trefnwyd gwledd nad â yn ango'
O ddanteithion blasus, da,
Pawb yn claddu am y gore,
Sglodion tatws, cig a ffâ.

Gwir fod pethau wedi newid
Nid yw'r Capten wrth y bwrdd
Ond rwy'n gwybod byddai'n hapus
Am ein bod ni yma'n cwrdd.

Bendith arnoch ferched annwyl
Yw'r gwir nymuniad i i chwi
Na, ni chlywyd yng Nghaerffili
Leisiau gwell na'n Genod Ni.

WALTER JONES, Cyffordd Llandudno



Aelodau o Parti Iolen yn ôl efo'i gilydd yng Ngwesty Glan-traeth.

**YSGOL FEITHRIN DEINIOLEN
NOSON TÂN GWYLLT
NOS WENER, 5 TACHWEDD
am 6.30 o'r gloch**

Mynediad: £1 (50c i blant)

**CŴN POETH — CAWL — SUDD OREN
TE A CHOFFI
CROESO CYNNES I BAWB**

**PLAID CYMRU DEINIOLEN
FFAIR NADOLIG
YNG NGHWMNI SIÔN CORN
NOS WENER, TACHWEDD 26
am 7 o'r gloch**

**YN YSGOL GWAUN GYNFI
DOWCH YN LLU I WELD YR HEN SIÔN**

Bistro
43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871278





DRAENOG



Gwasanaeth Diolchgarwch Clwb Elidir yn Neiniolen, a hwnnw yn ddwyieithog, a'r cyfeillydd yn poeni na fedrai hi ganu'r piano yn Saesneg! Dim ond piano Gymraeg oedd i'w gael yn Capel Wesla a thua Pentre Helen yntê, Mrs Davies?

ECO'R IFANC

Pa un o'r pum
pysgodyn sy'n
wahanol?



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN

6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**

Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



BARRY'S GLASS

- am Ffenestri a Drysau UPVC • Estimates am ddim
- Gwydr a gwydro o bob maint • Ffenestri Gwydr Dwbl
- Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr.



Y PRISIAU GORAU - GARANTID!

CAMELOT, PENISARWAUN
871144 (Dydd) 871774 (nos)

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253


Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

**RACCA
PENISARWAUN**

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres






Galwch neu ffoniwch
870605
am fanylion



↑ Pa ddau
flodyn
sydd yr
un fath?

Gorffennwch
y bwgan →
brain a'i liwio



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Enid Hughes a theulu y diweddar Hugh Hughes, Crawia, Llanrug, ddiolch i ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn eu profedigaeth.

Dymuna Collwyn a Rita, Gareth a Manon (Bangor) ddiolch am y llu cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar enedigaeth Gethin ar Fedi 16.

Dymuna Keith a Jacqueline Jones, Adref, Bro Eglwys, ddiolch i'w teulu a chymdogion am y galwadau ffôn, anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd Mathew tra yn yr ysbyty yn Lerpwl. Diolch i'r Parchg W. R. Williams am ei ofal. Diolch o galon i bawb.

Llongyfarchiadau i Catrin a Martin, Swyn Eryri, ar enedigaeth Aaron Martin. Llongyfarchiadau hefyd i Mary ac Oscar ar fod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

Cydymdeimlo: Wrth ddyddmuno yn dda i Mark Jones, Cefn, a Fiona ar achlysur eu priodas ar Fedi 25 'doeddem ni fawr o feddwl y byddai'r teulu mewn profedigaeth ar yr un diwrnod ym marwolaeth y Cynghorydd Sam Jones. Estynnir pob cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

O'r Ysbyty: 'Rydym yn falch o weld Mr Goronwy Jones, Glan Gors, yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Sul yr Urdd: Cynhelir gwasanaeth Sul yr Urdd Cylch Arfon eleni yng Nghapel y Cysegr am 2 prynhawn Sul, Tachwedd 21ain. Cymerir rhan gan aelodau Adran Bentref Waun-fawr, Adran Bentref Bethel, Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Uwchradd Brynrefail. Croeso cynnes iawn i unrhyw un droi i mewn.

Clwb 200 y Neuadd Goffa: Enillwyr gwobrau am fis Medi oedd — £20: Danny Humphreys, Is-Helen (225); £10: A. E. Williams, Tŷ Newydd (41); £5: Richard L. Jones, 5 Y Ddôl (126); Ruth Jones, 9 Y Ddôl (158); Alwynne Jones, 10 Y Ddôl (159); Huw R. Davies, Ponciau, Llangefni (123); Helen Thomas, Llys Derfel (129); M. Griffiths, Bro Rhos (48); Andrew Bell, Tŷ Newydd, Saron (219); Rachel Hughes, Coed Bolyn (122).

Y Gymdeithas: Nos Fawrth, Hydref 19, agorwyd tymor y Gymdeithas gyda sgwrs gan Mr Huw Williams, Bangor. Cafwyd noson o atgofion am

gymeriadau a ddylanwadodd arno yn ystod ei blentyndod yn Bryn Du, Môn. Rhoddodd gipolwg ar gymdeithas ddiwylliedig, ffraeth blynnyddoedd rhwng y ddau Ryfel Byd. Llywyddwyd y noson gan y Parchg W. R. Williams a diolchwyd i'r siaradwr gan Mr Elwyn Hughes, Bryn Ogwen. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn festri'r Cysegr am 7.15 o'r gloch, nos Fawrth, Tachwedd 16, pryd y ceir sgwrs gan Mr Maldwyn Thomas, Bangor.

Diolchgarwch: Cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch yn eglwys i'r pentref fwrw'r Sul, Hydref 17. Yn y Cysegr cafwyd gwasanaeth diolchgarwch yr Ysgol Sul ar fore Sul, Hydref 17 ac fe gynhaliwyd cyfarfodydd gweddi brynhawn a nos Lun. Dosbarthwyd rhoddion y plant yn y gwasanaeth i rai aelodau a chyfeillion yr eglwys.

Clwb y Rhos: Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Clwb ar nos Lun, Hydref 11, i drafod dyfodol y Clwb oherwydd gostyngiad yn yr aelodaeth. Er mai ychydig sydd yn mynychu'r cyfarfodydd penderfynwyd parhau i gyfarfod o leiaf am y tymor nesaf a phenderfynwyd estyn gwahoddiad agored i aelodau newydd. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol ar nos Lun, Tachwedd 8, am 7.30 p.m. pan geir sgwrs gan Mr Gwynhaf Jones, Swyddog Atal Trosedd y Sir.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Dydd Llun, Hydref 18, daeth Mr Merfyn Hughes a Mr M. Jones o adran lechyd yr Amgylchedd Cyngor Arfon i sgwrsio â phlant blwyddwyr 5 a 6 gan mai thema'r dosbarth yw 'Sbwriel'. Cafwyd prynhawn difyr iawn yn edrych ar fideo'n dangos yr hen ddull a'r dull newydd, glanach o gasglu sbwriel. 'Roedd y plant yn ymateb yn dda iawn ac yn gofyn nifer o gwestiynau perthnasol.

Cafodd blynnyddoedd 1 a 2 ymwelwyr yn ystod y mis hefyd, sef anifeiliaid anwes rhai o'r plant. Thema dosbarthiadau'r Babanod yw 'Dau Gi Bach'.

Ddydd Iau, Hydref 21, cynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch yr Ysgol gyda rhai o blant blwyddyn 6 yn cymryd rhan. Y gŵr gwadd oedd y Parchg W. R. Williams a roddodd sgwrs amserol i'r plant. Yn ystod y gwasanaeth gwnaed casgliad o £60 tuag at Gartref St. Teilo.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon:

Bwriedir, yn ystod y tymor yma, trefnu noson o Gwis yn ystod mis Tachwedd. Ceir mwy o fanylion yn fuan. Trefnwyd cystadleuaeth cynllunio cerdyn Nadolig yn ddiweddar. Penderfynwyd ar bedwar cynllun ac fe'i gwerthir mewn pecynnau o bump. Byddant allan o'r argraffwyr yn fuan iawn a gobeithir gwneud elw da o'u gwerthu.

Merched y Wawr: Nos Fercher, Hydref 13, yn neuadd yr Ysgol dan lywyddiaeth Eirlys Williams, cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Alwyn a Sarah Jones, Racca, Penisarwaun, trefnwyr blodau. Dangosodd Sarah sut i wneud dau drefniant gwahanol, un o flodau ffresh ac un o rai sych, gyda'r ddau yn edrych yn hardd iawn. Cyflwynwyd y blodau ffresh i Rita Williams ar achlysur ei phen-blwydd a dymunwyd yn dda iddi. Rhoddwyd y trefniant o'r blodau sych yn wobwr raffl, gyda Eirlys Sharpe yn ei hennill. Diolchwyd i'r ddau gan Nan Rowlands, a chyflwynwyd rhodd o £14 i Alwyn tuag at Ward yr Arennau, Ysbyty Gwynedd.

Trefniant hydrefol oedd cystadleuaeth y mis, a'r enillydd oedd Jacqueline Jones. Y gwestwagedd oedd Gwyneth Jones, Ann Elis a Mary Evans. Mae trefniadau ar gyfer y cinio 'Dolig ar y gweill a dylai'r rhai sydd am fynd i'r cinio roi eu henwau yn y cyfarfod nesaf (Pris £12). Y gŵr

gwadd y mis nesaf fydd Morus, cynllunydd gwallt, a'r dair lwcus i gael trin eu gwallt ganddo fydd Deilwen Hughes, Rhian Hughes a Jacqueline Jones.

Bydd ymarferion tuag at Noson Dathlu'r Nadolig gan y gangen yn cychwyn yn Festri'r Cysegr, nos Fercher nesaf, 27 Hydref, am 7.30. Bydd croeso i unrhyw aelod oedd ddim yn y cyfarfod diwethaf ac yn dymuno bod yn y parti canu neu'r parti adrodd droi i mewn i'r ymarfer. **Cyngor Arfon:** Wrth i'r Eco fynd i'r wasg fe gafwyd y wybodaeth fod Mr Robert Hefin Williams, Rhiwlas, wedi rhoi ei enw ymlaen i sefyll fel cynghorydd ar Gyngor Arfon yn dilyn marwolaeth y Cynghorydd Sam Jones. Mae Mr Williams, sy'n enedigol o Ddeiniolen ac yn gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, yn sefyll yn enw Plaid Cymru.



DRAENOG



Mae'n ail o fis Medi un naw, naw tri,
Ac Eirlys a'r genod yn barod am sbri;
Mae Dic yn ei wely yn cysgu yn sownd
A'r genod yn brysur — yn dechrau mynd rownd.

I'r Bedol i ddechrau gan blastro pob man,
Ac yna hyd walliau a giatiau y Llan —
Ffwl sbid am y Faenol, a'r Nant a Phen-rhos,
'Roedd llun Dic ym mhobman cyn hanner nos.

Mae'n drydydd o Fedi — mae'n ddiwrnod pen-blwydd,
A Dic, nôl ei arfer, yn dilyn ei swydd.
Ond O! fe ddychrynodd pan aeth o trwy'r drws
Wrth weld y posteri a llwyth o falŵns.

Cychwynodd fel cythral heb ddeud yr un gair,
Roedd penra bach Bethel bron iawn fath a ffair,
Yn llawn lluniau o Dic yn naw neu ddeg oed,
Ac yn goblyn o bishin, dela' welsoch chi 'rloed.



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/facs: 0286 672619

Richard S. Humphreys


**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Plaid Cymru: Trefnwyd ymweliad llwyddiannus gan Gwmni Theatr Bara Caws yn neuadd Ysgol Brynrefail ar ddechrau mis Hydref. Daeth cynulleidfa dda iawn i wyllo'r perfformiad o 'Diwedd y Byd' a hoffai'r trefnwyr ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Rhoddwyd gwobr y raffl gan Ann Lloyd Griffith, Hawddamor, a'r enillwyr oedd: 1, Ifanwy Roberts, Waunfawr; 2, Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug.

Bydd cynrychiolwyr o'r gangen yn mynd i Gynhadledd Flynyddol Plaid Cymru sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd ddiwedd y mis.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Mrs Cari Owen, Tŷ Fry, yn ei phrofedigaeth sydyn o golli ei phriod Ifan Owen.

Anfonwn ein dymuniadau am wellhad buan at aelodau sy'n cwyno.

Edrychwn ymlaen at groesawu aelodau o ganghennau Bethel, Deiniolen, Llanberis a'r Waunfawr i gyfarfod nesaf y gangen yn y Sefydliad Coffa, Llanrug, nos Fercher, Tachwedd 10, am 7.30 o'r gloch pan drefnir Cwis gan Arwel Jones.

Bydd y pwyllgor yn cyfarfod cyn bo hir i drefnu'r Ffair Nadolig sydd i'w chynnal yn yr Ysgol Gynradd ar nos Fercher, Rhagfyr 1af.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar 12 Hydref o dan lywyddiaeth yr is-lywydd, Meryl Green. Mynegwyd tristwch o glywed am brofedigaeth y llywydd, Menna Williams, o golli ei brawd; 'roedd yr aelodau yn falch o ddeall fod John, ei gŵr, yn gwella.

Anfonwyd cydymdeimlad y gangen i Carrie Owen yn ei phrofedigaeth lem o golli ei gŵr ac estynnwyd pob dymuniad da i Margaret Parry yn ei gwaeledd.

Llongyfarchwyd Ann Evans ar lwyddiant ei mherch, Eurgain, yn ennill cystadleueth Stori Fer Cymdeithas Celfyddydau Cymru.

Croesawyd y wraig wadd, Gwenan Roberts sydd yn therapydd iaith a lleferydd yn gwasanaethu plant ac oedolion yng Ngwynedd gydag anabledd dysgu. Soniodd hefyd am y naw mis a dreuliodd yn India, o dan gynllun 'Action Health 2000', yn hyfforddi athrawon mewn ysgolion ar gyfer plant gyda anawsterau dysgu. Gyda syndod clywyd am y diffyg adnoddau yn yr ysgolion gyda 250 o blant yn gorfod cael eu dysgu mewn 'rota' mewn un ysgol yn Calcutta — un o drefi tlotaf y byd — ac am ddau fachgen sy'n cael eu danfon i'r ysgol gan eu tad ar gefn ei feic — taith dwyawr o'u cartref.

Edmygwyd y lluniau o Gwennan yn ei Sari ym mhriodas dau o athrawon yr ysgol, priodas wedi ei threfnu gan y rhieni fel y mae'n arferiad mewn rhannau helaeth o India. Cydymdeimlem yn fawr â hi o weld lluniau o'r bwcedi yn dâl y dŵr i ymolchi!

Er yr holl anhawsterau teimlem fod Gwennan wedi mwynhau ei hun yn ystod ei chyfnod dramor ac edmygem y ffaith ei bod wedi dysgu rhywfaint o'r iaith Bengali er mwyn gallu cyfathrebu â'r plant ac o'r herwydd wedi llwyddo i ehangu gorrwelion y plant a'r athrawon.

Diolchwyd iddi gan Nancy Lovatt; ac i ferched Penisarwaun am wneud

y te gan Mair Hughes. Enillwyd y raffl gan Bethanne Williams.

Priodas: Ddydd Sadwrn, Medi 11eg, yng Nghapel Seilo (B), Caergeiliog, Môn, gyda'r Parchg Dyfed W. Roberts yn gweinyddu, priodwyd Sioned, merch Mr a Mrs Arthur Roberts, Afallon, Caergeiliog â Melvyn, mab Mr a Mrs Richard Jones, 8 Rhosrug, Llanrug. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Traeth, Bae Trearddur, Môn.

Dymuna Sioned a Melvyn, 8 Cefn Elan, Llanrug, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Marwolaeth: Yn dawel ar ddydd Iau, Hydref 7fed, yn 65 mlwydd oed, bu farw Alf Pritchard mab y diweddar Mr a Mrs John O. Pritchard, Pen-sarn. Bu'r gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor ar Hydref 12fed o dan ofal y Parchg Idris Thomas y Deon Gwlad. Rhoddir gweddillion Alf ym medd ei rieni ym mynwent y Santes Helen, Penisarwaun yn ddiweddarach. Gwnaed y trefniadau gan E. W. Pritchard, Llanberis.

Dymuna Betty, Jean a Menna, chwiorydd y diweddar Alf Pritchard, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu gofal o Alf tra bu'n wael.

Ysgol Gynradd Llanrug: Cafodd blwyddyn 6 wythnos ym Mhlas Glynllifon ar ddiwedd mis Medi. Mwynhawyd llu o weithgareddau amrywiol ar y stad, gan ganolbwyntio ar thema'r tymor, 'Tân'. Cafwyd cyfle i lwyfannu drama gyda phlant Ysgol Bontnewydd yn gynulleidfa.

Croeso atom i Elena Williams o Ddeiniolen. Gobeithio y bydd yn hapus gyda ni yn nosbarth y Babanod.

Daeth Nyrs Parry i sgwrsio gyda Bl 1 a 2 am fwyta'n iach ac edrych ar ôl eu cyrff. Diolch i chi Nyrs Parry am fod mor barod eich cymwynas bob amser.

Ar Dachwedd 1af bydd Ffair Calan Gaeaf yn yr ysgol, gan ddechrau am 6.30. Gwisg Ffansî unrhyw gymeriad o lyfr darllen, rhaglen deledu neu gymeriad hanesyddol. Bydd

stondinau a gemau traddodiadol yn ogystal.

Tachwedd 10fed cofiwch am y Ffair Lyfrau — llyfrau Cymraeg a Saesneg. Dewch yn llu i brynu anrhegion hwylus cyn y 'Dolig.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch gyda pob dosbarth yn cymryd rhan gan ddiolch am y digonedd sydd gennym ni ac yn cofio am y plant sy'n llai ffodus. Gwnaed casgliad at achos da lleol.

Capel y Rhos: Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yng Nghapel y Rhos ar fore Sul, 17 Hydref. Cymerwyd rhan gan Delyth, Siân, Iona, Dewi, Cheryl, Emyr, Ceri, Einir, Gwion, Awen, Steffan, Nicola a Siân Pritchard. Hyfforddwyd hwy gan Mrs Gwenda Roberts a'r organyddes oedd Mrs Carys Jones. Cafwyd anerchiad amserol gan y gweinidog, y Parchg John Morris.

Yn dilyn y gwasaneth bedyddiwyd Ifan Huw, mab bychan Gwen ac Ellis Wyn Griffiths, 3 Tai Arthur, Penisarwaun.

Yr Urdd: Ddydd Gwener, Hydref 15, aeth criw o'r Adran, a rhai o'r rhieni, am drip i Wersyll yr Urdd yng Nglanllyn. Cafwyd hwyl fawr yno yn nofio a bowlïo deg.

Cofiwch am y noson dawnsio gwerin ar Dachwedd yr 8fed.

Pob hwyl i'r ddau dîm nofio yng ngala nofio'r Urdd ym Mangor, Tachwedd 10fed a'r 15fed.

Enillwyr Clwb Cant am fis Hydref oedd: 1, Gwenifer Roberts, Taliesin, Rhosbodrual; 2, Meinir Williams, 22 Bryn Moelyn; 3, Gwyneth Thomas, Gwelfor; 4, J. Jones, 19 Bro Rhyddallt; 5, Karen Bourne, 6 Glanmoelyn.

Diolchiadau:

Dymuna Terry, Llys Elen, Ffordd-yr-orsaf, ddiolch i'w deulu a'i holl ffrindiau am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ei ben-blwydd.

Dymuna Meirwen Lloyd, Afallon, 15 Bryn Moelyn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau niferus, galwadau ffôn, blodau ac anrhegion a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch hefyd am bob cymwynas a chymorth drwy'r flwyddyn gan lawer — diolch yn fawr.


Dymuna Llinos Wyn Parry, Tyddyn Rhyddallt, Llanrug, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y rhoddion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

Dymuna Mr a Mrs Robin a Jane

Parry, 7 Hafan Elan, ddiolch i'w ffrindiau a'r teulu am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Dymuna Bet, Lyndale, a staff Menter Fachwen, ddiolch o galon am y gefnogaeth i wneud y Noson Goffi, a gynhaliwyd yn ddiweddar, yn un mor lwyddiannus. Diolch i Mrs Dilys Jones a'i chynorthwyywyr; Mrs Joan Williams; Arthur a Cled; ac i'r rhai wrth y stondinau — diolch.

Dymuna Mrs Enid Hughes a theulu y diweddar Hugh Hughes, Crawia, Llanrug, ddiolch i ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn eu profedigaeth.



Mae'r rhain yn ddyddiau cynhyrfus i Jonathan Davies o Lanrug. Cafodd gêm lwyddiannus iawn i dîm pêl-droed hŷn Gwynedd yn erbyn Clwyd. Sgoriodd bedair gôl ym muddugoliaeth Gwynedd o 6-1. Wedi'r perfformiad fe fydd yn cynrychioli Gogledd Cymru yn erbyn y De yn y prawf cenedlaethol yn Llanidloes. Dymunwn pob llwyddiant iddo — a oes cap arall ar y ffordd?

Marwolaeth: Yn frawychus o sydyn ar Hydref 1af, bu farw Evan Owen (Ifan Cae Corniog), Tŷ Fry, Llanrug, gŵr Carrie, tad Dewi a Manon, a thaid Gethin, Lowri a Lois. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus dan ofal y Parchg John Morris, Llanrug, a'r Parchg John Pritchard, Llanberis, yng Nghapel Bethel, Waunfawr, ar Hydref 7fed, ac yna ym Mynwent Betws Garmon.

Diolch: Dymuna Carrie, Dewi a Manon ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u cynhaliath tuag atynt yn eu galar o golli Ifan. Diolch o galon i ardalfwyr Llanrug, Penisarwaun a'r Waunfawr am eu cydymdeimlad.

DIOLCH

Dymuna Twrog Jones (Llanrug gynt) ddiolch i gyfeillion ym mro'r Eco am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ato ef a'i deulu yn dilyn marwolaeth ei dad yn ddiweddar.



Delyth Humphreys



Rolant Wynne, enillydd y Gadair a Delyth Humphreys, enillydd Tlws yr Ifanc, yn ystod y seremoni gwobrwyo yn Eisteddfod Llanrug.

TU HWNT I FFYDD gan Y Gwalch (parhad)

'Yr wyf yn sylweddoli erbyn hyn mor ffôl yr oeddwn,' meddai Harri. 'Nid oeddwn wedi meddwl sut i weithredu ar ôl cyrraedd Bari, ond ar y pryd nid oedd hynny yn ymddangos yn bwysig o gwbl. Yn Bari yr adeg honno yr oedd yn hawdd bod dan gudd er yn amlwg.

'Sicrheais ystafell i Elena a swydd i lanhau mewn ysbyty. Bodlonodd ar hynny, gan obeithio mai trefniant dros dro ydoedd. Cefais waith fy hunan yn clirio'r rwbel ar y dociau maluriedig. Awyddus oeddwn o briodi Elena ar unwaith ond nid oedd hi mor barod. Mynnai mai'r peth gorau oedd disgwyl. Roedd yn bendant ei bod yn falch o ddod o'r lleiandy, ond eto rhywsut ni ymddangosai mor llawen ag y dymunwn i iddi fod. Wrth i'r amser fynd ymlaen, a hithau o hyd yn erbyn priodas, dechreuais gario'r syniad mai fy nefnyddio â wnaeth i gael rhyddid o'r lleiandy.

'Arferwn fynd i'w gweld i'w llety bron bob nos. Un noson euthum i chwilio amdani a hithau, mi wyddwn, ddim yn fy nisgwyl. Pan gyrraeddais nid oedd hi yno a phenderfynais fynd yn ôl i'm lle fy hun. Neidiais ar gerbyn ac eistedd wrth y ffenest. Wrth i hwnnw fynd ar ei daith fe arhosodd am enyd, mewn heol gyffredin, a digwyddais sylwi ar eneth y tu allan i ddrws un o'r tai yn yr heol, yn siarad â dyn a oedd y tu mewn a'i law ar y glicied. Caodd y dyn y drws a throdd yr eneth gan gerdded i ffwrdd. Wrth iddi fynd heibio gwelais ei hwyneb: Elena oedd hi.

'Teimlwn fy hun yn gwallgofi. Yr oeddwn wedi gweld digon o dystiolaeth i brofi i mi fy hun fod fy amheuan yn gywir. Neidiais oddi ar y cerbyn a chyrchu ar un arall yn ôl i lety Elena. Yr oedd hi wedi cyrraedd eisoes ac ni wastreffais amser mewn rhagymadroddi. Gofynnais iddi ar ei ben ai gwir oedd fy syniad ei bod yn fy nefnyddio tuag at ei dibenion hunanol ei hun. Awgrymais fod ganddi garwr eisoes yn y Bari, at yr hwn yr elai ar ôl i mi droi fy nghefn.

'Bu yn syndod i mi ei chlywed yn cyfaddef ei bod wedi ymweld â thy yn y dref y noson honno, a dwy waith cyn hynny. Ond gwadodd yn bendant ac yn dorcalonus fod ganddi garwr yno. Yn hytrach dywedodd mai meddyg oedd y dyn a welais yn

nrws y tŷ, a'i bod wedi cael achos i fynd i'w weld am nad oedd wedi bod yn teimlo'n dda yn ddiweddar, ac nad oedd eisiau achosi unrhyw bryder i mi. Nid oeddwn, wrth gwrs, yn ei choelio. Yr unig beth a allwn feddwl amdano ar y pryd oedd fel yr oeddwn wedi fy nhwyllo a'm harwain i'r fath sefyllfa.

'Mae cariad yn aml yn gyfochrog â chasineb, a throdd fy natur innau tuag at ddial. Roeddwn wedi aberthu fy ngyrfa er ei mwyn ac wedi taflu sefyllfa lwyddiannus o'r neilltu er ei boddhau. Gan mai dyma'r tâl a dderbynais, teg felly, meddyliwn, oedd iddi hithau ddiodeff hefyd. Fy nghynllun oedd anfon neges i'r Fam Leian yn Fflorens i'w hysbysu lle roedd Elena, ac yn y cyfamser ffoi fy hunan ymhellach. Mynegais fy mwriad wrthi ar fy union ac allan â mi o'r llety gan ei gadael yn wylo yn dorcalonus, tra'r ymbiliai arnaf i'w choelio.

'Cerddais i gyfeiriad y môr ac eisteddais yng ngolwg y traeth gan bendroni beth â wnawn wedyn. Yno, ar ôl aros am ysbaid, meddyliais i mi wedi'r cwbl ymddwyn braidd yn fyrbwyll, ac mai ffolineb a fuasai mynd ymhellach heb gynllun pendant. Wedi'r cwbl roedd y ferch yn rhydd i wneud beth â fynnai, ac nid oeddwn unwaith wedi ei charu. Penderfynais yn y diwedd, â'r gwyll ar ddisgyn, i ddychwelyd i lety Elena a cheisio cymodi, er fy lles fy hun yn fwy na dim.

'Sylwais nad oedd golau yn ei ffenest pan gyrraeddais yr heol. Dywedodd yr hen wraig a gadwai'r tŷ nad oedd wedi gweld Elena yn mynd allan. Pan euthum i fyny i'w hystafell ni allwn weld dim, ond yr hyn a dynnodd fy sylw oedd arogl nwy. Fflachiais y lamp boced a gariwn ac wrth i'w phelydrau neidio yn ôl a blaen o gwmpas yr ystafell daethant i wrthdrawiad â wyneb gwelw ar yr esmwythfa inc a'r llygaid tywyll ynddo fel pe yn sylu arnaf yn gyhuddgar. Pan gamais tuag yno gwyddwn fod Elena yn farw drwy anadlu'r nwy gwenwynig.

'Y mae chwilydded yn allu cryf. Yn lle dianc oddi yno am fy hoedl fe gerddais allan yn hamddenol a phenderfynais mai cyn ymadael â'r dref y mynnwn gael eglurhad ar yr holl sefyllfa. Euthum felly i alw ar y dyn a welais yng nghwmni Elena yn gynharach a chael gwybod beth oedd y cysylltiad rhyngddo â hi. Canfyddais y tŷ yn hwylus, ac agorwyd i mi gan ferch a ofynnodd fy neges. Dywedais wrthi fy mod yn

awyddus i gael gair a'r meddyg a gwahoddodd fi i ystafell i eistedd. Toc cefais fy arwain i ystafell lle yr oedd dyn cadarn canol oed yn eistedd wrth ddesg. Cyfarchodd fi tra yn 'sgrifennu.

'Credaf mai meddyg ydych?' meddwn i.

'Cywir,' meddai. 'Pa aflwydd sydd yn eich poeni?'

'Nid ar ran fy hun yr wyf wedi dod,' meddwn innau, 'ond ar ran un o'r enw Elena Cassori.'

'Cododd ei ben yn sydyn gan sylu yn graff arnaf. Sylwais ar yr amheuaeth yn ei wyneb.

'Mae'n rhaid eich bod yn camsyniad,' meddai. 'Ni wn am neb o'r enw yna.'

'Mae hynny yn beth rhyfedd,' meddwn, 'gan i mi ei gweld yma yn gynharach. Beth bynnag, ni wnaiff fawr o wahaniaeth bellach, gan i mi ei chanfod yn farw yn ei llety ers rhyw hanner awr yn ôl.

'Pwy ydych chiwi?' gofynnodd yn sydyn.

'Ei darpar wr,' meddwn.

'Am danoch chi felly yr oedd hi mor bryderus. Maddeuwch i mi am eich twyllo; mae hynny yn rhan o'm gwaith weithiau. Egluraf yn union.'

Yna gofynnodd: 'A ydych chi hysbysu'r heddlu?'

Dywedais fy mod wedi cynhyrfu cymaint nes bod mor ddifeddwl â pheidio a gwneud hynny. Y ffaith oedd nad oeddwn yn awyddus i fynd i wrthdrawiad â hwy yn fy sefyllfa bresennol.

'Mi ddof gyda chi,' meddai'r meddyg. 'Tra byddaf yn mofyn fy ngherbyd â fuasech cystal â galw'r heddlu ar y ffôn o'r ystafell nesaf.'

Aeth allan a cherddais innau'n araf i'r ystafell nesaf.

Un gwyn, dau ddarn, oedd y ffôn ar ffwrdd bychan derw. Ond ni chyffyrddais â hi. Oedais am funud neu ddau cyn mynd allan drwy'r drws i'r heol roedd y meddyg yn fy aros.

Teithiasom mewn distawrwydd nes cyrraedd llety Elena a chawsom fynediad gan yr hen wraig. Eglurodd

ein neges iddi gan ei gadael yn sylu ar ein holau mewn braw. Pan ddaethom i stafell Elena yr oedd arogl y nwy yno o hyd.

Yr oedd gan fy nghydymaith lusern drydarn gref. Wedi gosod honno ar ffwrdd aeth y meddyg at Elena a gwnaeth archwiliad byr.

'Mae hi'n fawr yn sicr,' meddai. 'Mae tystiolaeth y nwy yn awgrymu hunan-laddiad. Nid ydyw yn syndod.'

'Pam y dywedwch hynny?' gofynnais.

'Yr oedd yn eneth anghyffredin o ddwys,' meddai gan ddatod ei gwisg a'i diosg oddi am ei hysgwydd chwith. Tu ôl i'r ysgwydd yn y cnawd dangosodd i mi ysmotyng bychan gwyn. Yr oeddwn wedi gweld ei debyg unwaith ar lanc yng Ngogledd Affrica.

'Y gwahanglwyf!' meddwn yn fioesg.

'Ie,' meddai yntau. 'Daeth y ferch yma ataf un noson ychydig wythnosau yn ôl a dangosodd ei hysgwydd i mi. Yr oedd hi ei hunan wedi amau fod y clwy melltigedig wedi gafael ynddi ac yr oedd yn boenus i gael fy marn. Yr adeg honno y dywedodd wrthyf ei bod mewn cariad â rhywun ac yn bwriadu ei briodi. Nid oedd, fodd bynnag, yn barod i beryglu ei darpar wr. Yr oeddwn ar y pryd yn bur sicr fod ei amheuaeth yn gywir, ond ni ddywedais wrthi. Yn hytrach, cynghorais hi i ddod i'm gweld yn fuan wedyn. Fe ddaeth unwaith ac wedyn heno, am y tro olaf. Yr oedd ei hysbryd yn isel ar hyd yr adeg, ac yn amlwg yr oedd y pryder yn effeithio arni. Awgrymais iddi eich hysbysu o'i chyflwr â dod a chiwi gyda hi i'm gweld. Ond ni fynnai hi hynny, ac efallai, y gellir deall ei theimlad. Beth bynnag, dyna'r hanes i chiwi.'

Yna, ychwanegodd: 'Mae'r heddlu yn hir iawn'.

Ni arhosais i'r rheiny gyrraedd. Yn hytrach euthum i'w ceisio hwy i roi fy hun i fyny. Mae'r gweddill wrth gwrs yn amlwg.

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

GWYNETH ROBERTS 84 Stryd Fawr, Llanberis Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

Newyddion o Ysgol Brynrefail

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail — Enillwyr Clwb 100 mis Medi: Dilys W. Kisalu, Llanberis; Selwyn Lloyd, Llanrug; Selyf Hughes, Llanberis. Mis Hydref: Mair Hughes, Llanrug; Aelwen Jones, Caernarfon; Catherine Jones, Waunfawr.

Glanllyn: Trefnodd adran yr Urdd yr Ysgol i ddeunaw o blant blwyddyn 7 dreulio penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn, rhwng Hydref 15fed-17eg. Er bod y tywydd yn anghyffredin o oer am yr adeg yma o'r flwyddyn cawsant hwyl arbennig yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau awyr agored amrywiol. Diolch i Nia Gwawr, Nia Griffiths a Catrin Thomas o'r chweched am dreulio'r penwythnos fel swyddogion yng nghwmni'r plant.

Ymweliad yr adran Wyddoniaeth â'r Wylfa: Ar y deuddegfed a'r pedwerydd ar bymtheg o Hydref ymwelodd set 1 a 2 a set 3, 4, 5 a 6 Gwyddoniaeth ag Atomfa Wylfa. Cafodd pawb gyfle i weld o gwmpas yr Orsaf wrth i wahanol weithwyr eu tywys o fan i fan. Ymweld â'r atomfa o ganlyniad i uned o waith Ffiseg yng nglyfod allweddol 4, sef 'Egni'.

Cwrs Chweched Dosbarth ym Mhrifysgol Bangor: Ar ddydd Llun, Medi'r 20fed, mynychodd y chweched, uchaf sy'n astudio Cymraeg, gwrs undydd yn y Brifysgol ym Mangor. Yn ystod y bore cawsant ddarlithoedd gan William Lewis ar y dramâu 'Antigone' a 'Siwan', a chan Gwyn Thomas ar 'Lên y Cyfryngau'. Yn y prynhawn darlithiodd Gerwyn Williams ar y nofelau gosod Lefel-A, sef *Un Nos Ola Leuad* a *Gwen Tomos*. Profodd y cwrs yn werthfawr ar gyfer paratoi at yr arholiad, ac er mwyn i'r disgyblion arfer â gwaith a darlithoedd Prifysgol.

Profiad Gwaith: Cynhaliwyd y cyfnod profiad gwaith ar gyfer blwyddyn 11 rhwng Medi 27ain a Hydref 1af. Bu'r wythnos yn hynod o lwyddiannus eleni eto. Yn y rhifyn nesaf o'r *Eco* bydd cyfle i ddarllen am brofiadau rhai o'r disgyblion yn eu lleoedd gwaith. Hoffa Mr Howyn Jones ddiolch i'r holl gyflogwyr lleol am eu cymorth parod sy'n galluogi i'r wythnos hon fod yn llwyddiant blynyddol.

Barddoniaeth Blwyddyn 7: Fel rhan o'u gwaith ar thema 'Bro' yn yr adran Gymraeg bu blwyddyn 7 yn rhoi cynnig ar fod yn feirdd, eu tasg oedd llunio cerddi am unrhyw fan arbennig yn yr ardal. Dyma rai enghreifftiau o'u gwaith:

BRENIN YR ARLWYDDI

Y mynydd uchel yn eistedd,
Yn gawr ar fron Eryri,
A phawb yn ei adnabod
Fel Brenin yr Arglwyddi.

Mae'r mynydd du yn ymestyn
I fyny at y cymylau
Yr Hebog ysglyfaethus
A chwifia rown ei 'sennau.

Trên bach yn pwffian mynd
I fyny i ben ei gopa
Pa fynydd yw hwn ebe chi?
Ie — Yr Wyddfa.

STEFFAN RHYS EVANS 70

CASTELL BRYN BRAS

Brenhines fawr, grand
yn eistedd ar ei gorsedd.

Coron fawr am ei phen;
yn ei gwallt mae rubannau lliwgar.

Mae brain yn nythu yn ei choron.
Paen a chwingod yn chwarae ar ei gorsedd.

Ei cheg yn agored —
a'r tu mewn mae llew yn cuddio.
NICOLA MARIE EDWARDS, 75

PONT CHARLIE


Dwy ysgwydd fawr, gref
a thwll drwy ei foll!
Trên fach ddu
yn mynd drwyddo.

Beth yw hyn?
Pobl fel morgrug
yn mynd
dros ei ysgwyddau!

Ond, rwan,
mae wedi mynd yn hen,
ac yn cysgu,
yn disgwyl am ei ddiwrnod
unwaith eto.

JULIE BURNAND, 75

Cefnogwch ein
Hysbysebwy



Pedwar o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn brysar ar Gwrs y Cyfryngau yng Ngholeg Harlech dros y penwythnos 8-10 Hydref. O'r chwith: Barry John Thomas, Amanda Jane Moloney, Simon Mark Murphy a Lliwen Jones.

Dechreuodd y penwythnos gyda'r cyfarwyddiadau i ddilyn 'stori ffug'; ymchwilio i mewn i'r stori; adrodd arni mewn gwahanol ddulliau newyddiadurol — papur newydd, teledu a radio — gyda help proffesiynol gan arbenigwyr y byd newyddiadurol. Cyflwynwyd y newyddion ar ddiwedd pob diwrnod gyda thrafodaeth ar y problemau a wynebwyd. Mwynhaodd y pedwar disgybl a'u hathrawes, Mrs Beryl Jones, y cwrs llwyddiannus yn fawr iawn a dysgwyd llawer o ganlyniad i'r profiad gwerthfawr.

BARRY JOHN THOMAS a SIMON MURPHY

TAITH YR AFON SEIONT

Geneth fechan
yn rhedeg i lawr y mynydd,
yn sionc ac yn gyflym,
i lawr y dyffryn.

O'r diwedd
mae'n cyrraedd y gwaelod.
Mae'n tyfu ac yn tyfu.
Ond mae'n arafu;
mae'r plentyn yn blino.

Ar ei thaith
ymdroella o dan lawer bwa mawr.
Mae'n arafu, i groesi'n ofalus
dros bwl mawr a bach.
Ond mae'r eneth yn mynd yn hŷn.

O'r diwedd
mae'n cyrraedd diwedd y daith.
Mae'n dod at arch anferthol!
Ac yn flinedig,
mae'n llifo i'w bedd.

LIZA ANNE JONES, 75

**MODURDY
PLAS
BACH**

CAEATHRO
Ffôn: C'fon 672072

Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

**London House
LLANRUG**

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

**CARPEDI
GLÂN**

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf,
sydd ar gael. Am
fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 650291

hefyd ail-osod carpedi

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR

GWRES CANOLOG

Pant Tirion, Llanrug

Ffôn: Caernarfon 673248

**Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi**



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

**Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr**



**Wynedd
Hotel**

& Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau
bedydd, pen-blwydd a phob
achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant -
disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Llandinorwig: Nos Fawrth, Tachwedd 23ain, bydd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Llandinorwig, Deiniolen, i sefydlu y Parchedig Tegid Roberts yn Ficer mewn gofal yn eglwys Dinorwig, Llandinorwig a Phenisarwaun.

Ysgol Sul Bosra: Fore Sul, Hydref 17eg, bu gwasanaeth diolchgarwch yng ngofal aelodau'r Ysgol Sul. Diolchir i'r plant am ddysgu eu gwaith mor drwyadl ac i'r athrawon am eu hyfforddi ac i Sioned Wyn am ei chyfraniad gwerthfawr. Bydd y casgliad yn mynd at achosion da.

Urdd, Adran Bentref: Bydd cyfarfodydd yr Urdd yn dechrau nos Farwth, Tachwedd 2il, am 6.00 p.m. yn y Neuadd Gymuned. Tâl aelodaeth eleni yw £2.65. I agor y tykmor ceir cyfle i chwarae gêm o Chwilen ac i ymaelodi â'r Urdd. Bydd creision a diod ar werth ym mhob cyfarfod am 25c.

Ysgol Feithrin: Bydd yr Ysgol Feithrin yn cynnal Ffair Nadolig yn y Neuadd Gymuned ar nos Wener, Rhagfyr 10fed am 6.00 p.m. Ceir adloniant gan y plant a stondinau diri. Mae cardiau Nadolig y Cylch Meithrin ar werth yn awr am £1.30 y pecyn.

Cyfeillion yr Ysgol: Y mae cardiau Nadolig, wedi'u cynllunio gan blant yr Ysgol, ar werth gan aelodau'r pwyllgor — 8 am £1.60 — fe aiff yr elw at brynu offer i'r Ysgol.

Cronfa Haematoleg: Nos Fawrth, Hydref 19eg, cynhaliwyd parti Tupperware yn y Neuadd Gymuned am 8 o'r gloch, gyda'r elw yn mynd at Apêl Haematoleg a Chancr Gwynedd. Diolchir i Mrs Joy Pike, Arthur House, am drefnu'r noson. Y mae swm sylweddol yn y gronfa erbyn hyn. Os dymuna unrhyw un gyfrannu at yr achos da yma cysyllter ag aelodau'r pwyllgor neu'r Trysorydd, Ann Paterson ar 872405.

Pob Bendith: Dymunir pob hapusrwydd i Fiona a Mark Jones ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Llongyferchir Gwynfor, mab Mr a Mrs John E. Hughes, Gwynfryn, Groeslon Racca, ar ei ddychafiad yn Rhingyll yn Heddlu Gogledd Cymru. Bydd yn dilyn ei ddyletswyddau yng Nghaernarfon. Dymuniadau gorau iddo oddi wrth y teulu a'i gyfeillion.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant mis Medi mewn pwyllgor yn yr Ystafell Gymuned ar 28 Medi. Yr enillwyr oedd: 1, Mrs Rosie Jones,

Pen-y-groes; 2, Mrs Pat Jones, 1 Tai Arthur; 3, Mrs E. J. Williams, 2 Bryntirion.

Y mae catalogau anrhegion ar gyfer y Nadolig yn awr gan aelodau'r pwyllgor ac fe dderbynnir archebion gan Phyllis Ellis erbyn Tachwedd 1, os gwelwch yn dda. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Jim Woodcock — aelod gweithgar o'r pwyllgor — ar golli ei wraig, Carole. **Eglwys Santes Helen:** Cafwyd cynulleidfa deilwng iawn i'r ddau wasanaeth diolchgarwch eleni. Hyfryd iawn oedd gweld y plant a'r bobl ifanc yn y gynulleidfa ac yn cymryd eu rhan yng ngwasanaeth y pnawn. Y pregethwr gwadd eleni oedd y Parchg Geraint Wyn Edwards, cyn-ficer y plwyf. Cafodd groeso mawr gan bawb ac ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd paned a lluniaeth ysgafn yn y Neuadd. Dymuna'r Wardeiniaid ddiolch i bawb am y rhoddion ac am bob cyfraniad i wneud yr Wyl Ddiolch yn llwyddiant.

Ffair Cynhaeaf: Cynhaliwyd y Ffair Cynhaeaf ar nos Lun, Hydref 18fed, yn Neuadd yr Eglwys. Cafwyd noson lwyddiannus ac fe sicrhawyd oddeutu £180 tuag at gronfa'r Eglwys. Enillwyr y raffl oedd: 1, Mrs Avril Hughes; 2, Mr Patrick Stewart; 3, Mrs Elen Lewis; 4, Mrs Mary Davies. Diolchir i bawb am eu cymorth ar y noson.

Trip i Lerpwl: Trefnir trip siopa i Lerpwl ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 4ydd, a'r pris fydd £5. Bydd y bws yn cychwyn o Benisarwaun am 7.45 a.m. Enwau gyda'r £5 i Wendy Philips, ffôn 870909. Aiff yr elw at yr Ysgol Feithrin.

Profedigaethau: Estynnir ein cydymdeimlad llwyr i Carol Philpot, Waun, ar golli ei chwaer yng nghyfraith.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Hydref 10fed, bu farw Carole Woodcock, Tŷ Gwyn, Waun, gwraig annwyl Jim Woodcock a mam dyner Sara ac Andrew, ac unig ferch Effie a Hardy, Chorlton, Manceinion. Anfonir ein cydymdeimlad dwysaf i chwi oll fel teulu.

Dymuna Jim Woodcock ddiolch yn ddiffuant am y fath gareidgrwydd a ddangoswyd gan bobl yr ardal yn ystod ei brofedigaeth lem. Derbyniodd lu o gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau ynghyd â

rhoddion ariannol tuag at Gronfa Cancr Macmillan.

Anfonwn ein cydymdeimlad dyfnaf i Mrs Carrie Owen, Tŷ Fry, Llanrug, a'r teulu oll, ar farwolaeth sydyn ei gŵr Ifan, Cae Corniog Bach gynt. **Plygu'r Eco:** Diolchir i'r deuddeg ffyddlon a ddaeth i blygu rhifyn Hydref. Gwerfawrogir cyfraniad y bobl ifanc a gyda Dafydd Ifans yn rhwymo fe gwblhawyd y gwaith erbyn 7.30 p.m. Diolch i chwi i gyd. Ein diolch hefyd i swyddogion Eglwys Santes Helen am gael defnyddio'r Neuadd.

Marwolaeth Mrs Mary Jones yn 101 oed: Bu farw Mrs Mary Lizzie Jones, gwraig y diweddar Gruffydd Owen Jones, yn ei chartref 3 Stryd Mason, Bangor, ddydd Gwener, Hydref 8fed, yn 101 mlwydd oed. 'Roedd yn fam i Thelma a Morwenna, mam yng nghyfraith Emlyn, nain Elfyn a Medwyn a hen nain Siân Wyn. 'Roedd gynt o Benisarwaun ac yn enedigol o Rhosymedre. Bu'r angladd ym mynwent Santes Helen ar ddydd Mercher, Hydref 13eg. Cynhaliwyd gwasanaeth yn y cartref ac yna ar lan y bedd. Gwasanaethwyd gan y Parchg John Pritchard, Llanberis. Y cludwyr oedd Elfyn a Medwyn, wyrion; Arnold, nai; ac Evie Wyn, blaenor ym Mosra. Y galarwyr teuluol oedd Thelma a Morwenna y ddwy ferch; Emlyn, mab yng nghyfraith; Elfyn a Nan, Medwyn a Ceri, wyrion a'u gwagedd; Arnold, nai; Mair a Bill, nith a'i gŵr; a Sydney Williams a Mary Davies.

Anfonwyd blodau gan: y teulu; Megan a'i mham; Glyn, Helen a'r teulu; Jean a Bob; Dilys, Edwin, Bethan a Dorothy.

Diolchir i'r llu o ffrindiau o'r pentref ac o ardaloedd eraill a ddaeth i'r angladd. Gwnaed y trefniadau gan Myrddin Pritchard, Llanberis.

ADUNIAD
i gyn-ddisgyblion
YSGOL GYNRADD
RHIWLAS
yng Ngwesty'r Anglesey
Porthaethwy
12 Tachwedd 1993
Am fanylion pellach
cysyllter â:
MENAI THOMAS
(2 Penrhyn Terrace gynt)
(0248) 712918

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon (Waunfawr 799)

Marwolaeth: Ar y 6ed o Hydref bu farw Miss Mary Pierce, Bryn Glas gynt, yn 83 mlwydd oed. Bu'r gwasanaeth angladdol ar y 9fed o Hydref yng nghartref ei nith, Mrs Glenys Roberts, Llangefni, ac yna ym mynwent Llanrug.

BETWS GARMON

Llongyfarchiadau i Sara Williams, Parc, ar basio ei phrawf gyrru yn ddiweddar; ac hefyd ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar ddechrau mis Hydref. Pob hwyl iti Sara i'r dyfodol.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Llongyfarch: Llongyfarchiadau i Shirley a Selwyn Davies, 1 Tan y Bryn, ar ddathlu eu priodas arian ar Hydref 12.

Llongyfarchiadau i Griffydd Closs, gynt o 3 Tan y Bryn, ond sydd yn awr yng nghartref Bron Eryri, Llanberis, ar ddathlu ei ben-blwydd yn naw deg oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Hefin Michael Williams, wyr i'r diweddar Elias ac Elen Griffith, Awelon, ar ei ddychafiad yn ei waith yn ardal Aberystwyth.

Capel Rehoboth: Cynhaliwyd y Cyfarfod Diolchgarwch ar brynawn Sul, Hydref 24ain. Cymerwyd rhan gan Hefin Pritchard, Elfyn Williams, Dafydd Pritchard a Sharon Griffiths. Traddodwyd pregeth gan y gweinidog, y Parchg John Pritchard.

DRAENOG



Mae gohebydd Nant Peris yn honni ei fod am werthu Land Rover 1976. Ond mae o mor hoff ohono nes gwneud popeth posib i atal pobol rhag clywed bod bargaen i'w chael!

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON
LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Côr Meibion Dyffryn Peris: Mae'r côr unwaith eto wedi cael dechrau eithaf prysur i'r tymor newydd, ac ar ôl cael tair wythnos o wyliau, digon gwlyb o ran y tywydd(!), 'roedd pawb yn edrych ymlaen am ail-ddechrau yn ôl ac i fynd o gwmpas i ddangos eu dillad newydd!

Dechreuwyd trwy gynnal Noson Lawen i agor y ganolfan newydd ym Montnewydd ac fe ddaeth nifer dda ynghyd ac roedd y côr mewn hwyliau da a phawb yn dweud mai dyma'r lle gorau y mae'r côr wedi canu ynddo.

Byddant yn canu yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, dair gwaith o hyn i'r Nadolig ac hefyd bydd Nosweithiau Llawen yn y Bala, Lerpwl, Caernarfon, Dinorwig, Eglwys-bach, Groeslon, Cricieth a Glan Conwy, a phedair arall o gwmpas yr ardal. Felly, os oes rhywun angen cael eu diddanu o hyn i'r Nadolig mae hi'n mynd i fod yn reit anodd. I fod yn siŵr cysyllter ag Ifor Jones ar Llanberis 870190, neu yn well fyth trwy lythyr i 2 Llainwen Isaf, Llanberis.

G. LEWIS

Capel Coch: Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ar ddydd Sul, Hydref 17. Cynhaliwyd oedfa bregethu yn y bore a chyfarfod gweddi yn oedfa'r hwyr. Yr oedd gwasanaeth y prynhawn yng ngofal plant yr Ysgol Sul, ac yr oedd yn braf gweld criw mawr ohonynt yn cymryd rhan. Daeth y plant a ffrwythau a llysiau efo nhw i'r oedfa, a rhannwyd y nwyddau hynny ymysg aelodau hyn yr eglwys ynghyd â rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cyfarfod y Chwiorydd: Cafwyd orig ddifyr yng nghwmni Mr Robert Williams, Deiniolen, ar Hydref 7, a phawb wedi cael blas yn gwrandio arno'n sôn am 'Freuddwydion'. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 2 o'r gloch, ddydd Iau, Tachwedd 4, pan fydd Mr Ken Jones, Blaen Ddôl, yn dod i sgwrsio am Gapel Hebron a Chwm Brwynog.

Dau Ddathliad: Yr oedd yna ddathlu mawr yn 61 Maes Padarn yn ddiweddar gan fod Mr John Thomas (Jack Tom) yn cael ei ben-blwydd yn 90 oed. Ychydig ddyddiau cyn hynny yr oedd ef a Mrs Catherine Ellen Thomas wedi dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt.

Rhedeg Traws Gwlad: Ddydd Sul, Medi 3, aeth criw o Lanberis i redeg yn Ras Caernarfon a chael llwyddiant yno. Dyma'r canlyniadau — Genethod dan 11: 3 (o fewn i amser y record), Elin Harding. Bechgyn dan 11: 1 (a thorri record), Gareth Jones. Bechgyn dan 13: 4, Alwyn Jones. Bechgyn dan 16: 1 (a thorri ei record ei hun), Alun Vaughan. Da iawn chi i gyd.

Ar ddydd Sul, Hydref 10, dechreuodd Cynghrair Glannau Dyfrdwy a chafodd y plant ddechrau da. Dyma'r canlyniadau — Genethod dan 11: 3, Elin Harding; 4, Beci Jones. Bechgyn dan 11: 2, Gareth Jones. Bechgyn dan 13: 9, Alwyn Jones. Genethod dan 13: 7, Rachel Jones.

Aur i Gymru: Yn Ardal y Llynnoedd yr oedd Alun Vaughan yn rhedeg ar ddydd Sul, Hydref 10. Yr oedd yn cynrychioli Cymru. Daeth Alun yn 16eg yn y ras, a thîm Cymru yn gyntaf yn erbyn timau o Loegr, yr

Alban a Gogledd Iwerddon. Da iawn ti Alun.

Llongyfarchiadau i bawb o Lanberis a wnaeth yn dda yn yr arholiadau TGAU a Lefel-A. Pob lwc i chi i gyd yn y dyfodol.

Genedigaeth: Ganwyd mab, Robert, i Bethan (Bryan) a Robin Holding yn Ysbyty Hwlfordd. Mae ei nain ac Anti Nia, 'Rallt Goch Ceunant, wedi gwirioni'n lân.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Dyma enillwyr y Clwb 1/10/93 — £35: Mrs Y. Jones, Maenol, Caernarfon (12); £25: Dr G. Williams, 3 Preswylfa, Llanberis (80); £15: Mr E. Thomas, 13 Tŷ Du Road, Llanberis (97); £10: Mrs H. Thomas, Bryn Hafod, Llanberis (45); £5: Mr G. Owen, Maes Padarn, Llanberis (195). **Ysgol Dolbadarn:** Croesawyd 26 o blant bach o'r newydd i'r Ysgol ddechrau mis Medi. Bellach maent wedi ymgartrefu yn ein mys ac wrthi'n brysur yn gweithio'n galed!

Yr ydym yn ymfalchio yn llwyddiant Gareth a Darren; mae'r ddau ohonynt wedi cael eu dewis i dîm rygbi Gwynedd. Pob lwch i chi fechgyn!

Ymwelodd Tobie, ci sydd wedi ymddeol o fod yn gi achub ar y mynyddoedd, â'r Ysgol gyda'i berchennog, Mr Roland Leyland, a Mr Selwyn Jones sydd ill dau yn aelodau o Dîm Achub Llanberis. Cafodd y drafodaeth ei recordio ar gyfer rhaglen 'Digwydd', un o raglenni Radio Cymru i ysgolion.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i'ch atgoffa ein bod yn casglu 'vouchers' Boots, Birds Eye (sef y dyddiadau ar y bocsus neu'r pcedi), a thocynnau Persil, er mwyn cael llyfrau ac offer ymarfer corff i'r plant. Peidiwch a thaflu'r tocynnau i ffrwd.

Mae Adran Bentref yr Urdd yn ailgychwyn ar ôl hanner tymor. Bydd yn cyfarfod ar nos Fercher ar ôl yr ysgol. Os oes unrhyw un â diddordeb i helpu, cysylltwch â Mrs Ann Jones yn yr Ysgol os gwelwch yn dda. Bydd y noson gofrestru ar Dachwedd 3ydd, yn syth ar ôl yr ysgol.

Bellach mae Sera a Lianne wedi dychwelyd i'r Ysgol ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Maent yn cryfhau rwan ac yr ydym yn falch eu bod yn ôl.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y rhieni a'r llywodraethwyr ar Hydref 12, ac ynddo fe ddefnyddiwyd, am y tro cyntaf yn yr Ysgol, offer cyfieithu ar y pryd.

Cafodd y rhieni gyfle i drafod gwaith eu plant gyda'r athrawon ar Hydref 20.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor yn Festri Capel Coch ar nos Fawrth, Tachwedd 9fed am 7 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd Mr Selwyn Griffith, Penisarwaun. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd i'r Gymdeithas ar gychwyn gweithgareddau'r tymor.

Cymdeithas Eglwys St Peris a St Padarn: Cyfarfu aelodau cymdeithas yr Eglwys yn Festri Eglwys St Padarn, nos Iau, Hydref 7fed, o dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Arweinwyd y gweddïau gan Mr Ralph Jones, a chroesawyd y gŵr gwadd, Dr Tom Pritchard o Fangor, gan y Cadeirydd. Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol ac addysgiadol gan Dr Pritchard gyda sleidiau yn gweddu i'r sgwrs ar dirwedd ac ecoleg gogledd Cymru yn fwyaf

arbennig. Gwestwagedd y mis oedd Mrs Gracie Roberts a Mrs Margaret Griffiths, a hwy hefyd oedd yn gyfrifol am y raffl a enillwyd gan Mr Glyn Williams. Diolchwyd yn gynnes iddynt hwy ac i Dr Pritchard gan y Parchg Gwynfor Williams.

Yr Ysgol Feithrin: Bydd yr Ysgol Feithrin yn cynnal Bingo ar y 26ain o Dachwedd yn Nghlwb y Leng Brydeinig, Llanberis. Croeso cynnes i bawb.



Priodas: Ddydd Sadwrn, Medi 18fed, yng nghapel Bethania, Y Felinheli, priodwyd Carys, merch Mr a Mrs John H. Hughes, Llys Menai, Y Felinheli, a Robert Arwyn, mab Mr a Mrs John Williams, 6 'Rallt Goch, Llanberis. Gweinyddwyd y briodas gan y Parchg W. R. Williams, a'r organyddes oedd Mrs Margaret Tuzuner. Y morynion oedd Tracy (ffrind y briodferch) ac Anwen a Delyth (cyfnitherod y briodferch) a Ffion (nith y priodfab). Y gwas oedd Dylan Roberts (ffrind y priodfab), a'r ystylyswyr oedd John Williams (brawd y priodfab) a Keith H. Hughes (brawd y briodferch). Cynhaliwyd y brecwast priodas yng Ngwesty'r Bulkeley, Biwmares. Bydd Carys ac Arwyn yn cartrefu yn 21 Stryd Goodman, Llanberis.

Diolch: Dymuna Carys ac Arwyn ddiolch yn fawr i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl anrhegion a'r llw cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Delyth ac Aled ddiolch yn fawr i'w teuluoedd a'u ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd y ddau ar eu dyweddiad.

Dymuna Dylan Williams, 6 'Rallt Goch, ddiolch am yr arian a'r cardiau a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Ian a Rhian Edwards ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn Eglwys Sant Padarn yn ddiweddar.

Dymuna Olwen Roberts, Argoed, Stryd Warden, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty.

Dymuna Mr a Mrs J. Thomas, 61 Maes Padarn, ddiolch i'w teulu a'u holl ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion ar ddathlu eu priodas ddiemwnt; ac ar achlysur pen-blwydd Mr Thomas yn 90 oed. Diolch i'r holl gymdeithas.

Dymuna Eurwyn, Carys, Manon ac

Amlyn, teulu y diweddar Mrs Arfon Evans, Derlwyn, Stryd Fawr, Llanberis, ddiolch o galon i berthnasau a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad ac am y llw cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a chymwynasau a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam a nain addfwyn. Diolch i'r Meddygon Teulu a staff Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd, Bangor, am eu gofal cyson a charedig ac i'r Canon Barry Thomas a'r Parchg Gwynfor Williams am eu cyfraniad arbennig i'r gwasanaeth; hefyd i E. W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau trylwyr.

Dymuna Mrs Menai Jones, 5 Glanrafon Bungalows, ddiolch o galon i bawb am y llw cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Dymuna William Jones, Y Dreflan, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i'w berthnasau, cymdogion a chyfeillion am yr anrhegion a'r llw cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Miss Jennie Wheldon Jones, Bod Arthur, 9 Teras Cambria, ddiolch yn ddiffuant i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Dewi Sant, ac ar ôl iddi ddychwelyd adref. Diolch hefyd i staff wardiau y ddau ysbyty.

Dymuna Elwyn a Sandra ddiolch yn fawr iawn am y llw o anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Lowri Elenid, chwaer bach i Bedwyr ac wyres i Sheila a Myfanwy.

Dymuna Mrs Enid Thomas, 3 Stryd Turner, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y cardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Llauer o ddiolch hefyd i staff Ward Aran yn Ysbyty Gwynedd.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Cymdeithas y Chwiorydd: Cafwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ffestri, nos Iau, Hydref 7fed dan lywyddiaeth Mrs J. A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Roedd y defosiwn dan arweiniad Mrs Rhian Jones, 3 Trem Eilian gyda darlleniad a sylwadau ar ran o'r ddeuddegfed bennod o Epistol Cyntaf Paul at y Corinthiaid. Gwraig wadd y noson oedd Mrs Maureen Lennon, Llanberis. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddi am yr amrywiol brofiadau a ddaeth i'w rhan yn ystod ei gyrfa ym myd addysg, ac o fawr ddiddordeb i'r aelodau oedd ei hatgofion am ei chyfnod fel prifathrawes yma ym Mrynrefail.

Talwyd diolch iddi gan Mrs Eirlys Williams a Mrs Jennie Hughes. Paratowyd y te gan Mrs Rhian Jones a Mrs Euronwy Roberts a diolchwyd iddynt gan Mrs Nannie Evans. Hwn oedd y cyfarfod olaf am 1993 ac etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 1994 pan fydd y Gymdeithas yn ailgyfarfod ddechrau Ebrill — Llywydd: Miss Lowri Prys Roberts; Ysgrifennydd: Mrs Jennie Hughes; Trysorydd: Mrs Dwywen Williams. **Cyfarfod Misol Arfon:** Ddydd Mawrth, Hydref 12fed, ymwelodd Henaduriaeth Arfon ag Eglwys M.C. Brynrefail, dan lywyddiaeth Mr Alun Ogwen Jones, Bethesda. Cafwyd adroddiad o hanes yr Achos dan arweiniad y Parchg D. Elwyn Edwards, Caernarfon, gan Mr Gwyn Hefin Jones, Miss Lowri Prys Roberts, Mrs Jennie A. Roberts a Mr Richard W. Evans ynghyd a'r Gweinidog, y Parchg John G. Morris. Agorwyd y mater, sef 'Dyletswyddau Gweinidog yn wyneb Strategaeth y Dyfodol' gan y Parchg Ifan Rh. Roberts, Prestatyn, a baint i'r Gweinidog presennol oedd cael ei gyflwyno fel mab i un o gynweinidogion yr eglwys yma ym Mrynrefail, sef y diweddar Barchg W. Bryn Roberts.

Anfonwyd llythyr o gofion at Miss A. M. Williams, cyn-aelod o'r Henaduriaeth, yn ei gwaeledd. Er garwed fu'r tywydd ar y diwrnod, profwyd naws gartrefol a chynnes gydol y dydd a bu croeso'r chwiorydd yn hael wrth y byrddau te a diolchwyd iddynt gan Mr Caradog Hughes, Caeathro.

Profedigaeth: Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Cae Gwyddel yn eu profedigaeth o golli mab a brawd

annwyl, sef Mr Douglas Evans, Parc Hendre, Caernarfon, a fu farw ar Hydref 14eg yn 56 mlwydd oed. Bu'r angladd preifat yn ei gartref ddydd Mawrth, Hydref 19eg, ac yn dilyn yn gyhoeddus yn Amlogsgfa Bangor.

Bedydd: Ddydd Sul, Hydref 17eg, yng Nghapel M.C. Brynrefail gyd'r Gweinidog, y Parchg John Morris, yn gwasanaethu bedyddiwyd Anna Gwenillian, merch fach Geraint ac Elen George, Sŵn yr Engan, a chwaer fach i Rhian. Estynnwyd croeso i aelodau o'r teulu o Ystalyfera a Llangaffo i'r oedfa a llawenydd oedd derbyn Geraint ac Elen yn aelodau yn yr eglwys a darllen eu llythyrau cyflwyniad o eglwys Pant-teg, Ystalyfera a Bethania, Llangaffo.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, Hydref 18fed, cyfarfu'r gangen leol yn y Ffestri dan lywyddiaeth Mrs Carol Houston. Estynnwyd croeso i gangen Llanberis o'r Sefydliad a chyfeillion o'r pentref a ddaeth ynghyd i dreulio'r noson yng nghwmni Mrs Eileen Lewis a Miss Sioned Griffith o'r Cake Magic, Bangor, yn dangos y grefft o addurno caccannau Nadolig. Diolchwyd iddynt am noson ddiddorol gan Mrs Eleanor Williams. Enillwyd y wobwr am gacen Nadolig a addurnwyd gan Mrs Jennie A. Roberts ac enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Pat Jones, oedd Mrs Alwen Mai Roberts o gangen Llanberis. Trefnwyd y lluniaeth gan aelodau pwyllgor cangen Brynrefail a thalwyd gair o ddiolch gan Mrs Alwen Mai Roberts. Bydd cinio Nadolig y gangen yn cael ei gynnal ar Ragfyr 13eg yng Ngwesty'r Prince of Wales, Caernarfon, a derbynnir enwau rhag blaen gan yr Ysgrifennydd, Mrs Betty Owen.

Casgliad: Mewn casgliad a wnaed yn ddiweddar yn y pentref fe gasglwyd y swm o £56.55 tuag at Gymdeithas y Beiblau (Cangen Deiniolen a'r Cylch). Diolch i bawb am eu cyfraniad ac i'r casglyddion — Mrs Verna Jones, Mrs Betty Owen, Mrs Dilys Jones a Mrs Ifanwy Jones — am eu gwaith.

DRAENOG

Glywsoch chi am y babi bach dwyflwydd oed o ardal Llanrug gafodd ei hel o dafarn leol — dim ond am ei fod yn cysgu!

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Cyngerdd: Yn y Capel ar nos Sul, 26 Medi, bu Cyngerdd Coffa canmlwyddiant marw William Owen, Pryscol.

Daeth tyrfa deilwng ynghyd i wrando ar Seindorf Arian Ieuenctid Deiniolen o dan ofal eu harweinydd; Côr Merched Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon, dan ofal Menai Williams a Mona Richards. Difyrwyd y gynulleidfa hefyd gan Dafydd Iwan, Caeathro, gyda detholiad o ganeuon difyr i gyfeiliant y gitâr.

Rhoddodd Robert Williams, Llanrug, grynhoed o 'Seremoni Dadorchuddio Cofeb William Owen, Pryscol' yn ôl Gohebydd Y Genedl, 'Gorphenaf' 27, 1914.

Hyfryd oedd gweld aelodau o deulu y cerddor yn bresennol a chyflwynwyd hwy i'r gynulleidfa gan lywydd y cyfarfod, y Parchg W. R. Williams, sef Mr Hugh Owen Roberts, Llandegfan (gor-wyr) a'i briod; Mr Dewi Lloyd Jones, Waunfawr (gor-wyr) a'i briod; Mrs Awen Wyn Jones, Llanrhuallt, Môn (gor-wyres) a'i phriod; Mr Hughes, Porthaethwy (gor-wyr) a'i briod a gor-wyr o Sheffield a'i briod.

Diolchwyd iddynt am ddod ac i'r ardalwyr am eu cefnogaeth gan Mr J. Ifor Hughes. 'Roedd yr elw at gynnal a chadw y fynwent.

Sioe Cynnyrch Gardd a Thŷ: Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ar nos Fercher, 3 Tachwedd, am 7 p.m. yn

y Ffestri. Croeso i bawb — yn arbennig aelodau'r pwyllgor!

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Tachwedd, am 2.00 y prynhawn:

7—Bugail, Parchg W. R. Williams
14—Parchg Iorwerth Jones Owen
21—Bugail, Parchg W. R. Williams
28—Parchg D. Elwyn Edwards.

Cymdeithas y Cae Chwarae: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas ym Mryngwna ar 18 Hydref. Yng ngeiriau'r Cadeirydd bu'r pwyllgor newydd yn llwyddiannus wrth ailosod y gweithgareddau ar eu traed er budd trigolion o bob oed. Diolch i gyfranwyr i'r Dynfa Fisol. Roedd gan y Trysorydd fantolen iach i'w chyflwyno, ond roedd y rhan fwyaf o wariant y pwyllgor dros adeg y Nadolig. Penderfynwyd cynnal Parti Nadolig i'r pentrefwyr ar nos Sadwrn, 18 Rhagfyr, yng Nglanwna. Etholwyd Clive James yn Gadeirydd, Wally Evans yn Drysorydd ac Alun Roberts yn Ysgrifennydd. Enillwyd y Dynfa Fisol am fis Hydref oedd — 1, Albert Jones, 5 Erw Wen (62); 2, S. E. Evans, 21 Glangwna (44); 3, Mr a Mrs G. Jones, Tremallt (27).

Byddai'r pwyllgor yn dra diolchgar clywed, yn ddistaw bach, am unrhyw drigolyn sydd wedi cyrraedd oed pensiwn y wladwriaeth ers y llynedd er mwyn sicrhau pryd Nadolig iddynt.

Dyma gerdd amserol o eiddo un o'n colofnwyr rheolaidd:

TACHWEDD (yr unfed ar ddeg)

Marciau gwaed yn glotiau
ar freichiau crin y wig,
dolur ar bob deilen
a briwiau ar bob brig.

bu'n frwydr erchyll neithiwr,
y gwynt yng ngwddw'r glaw,
mae'r dail fel catrawd glwyfus
yn gorwedd yn y baw.

Dristed yw marc y creithiau
ar freichiau noeth y wig,
lle doe bu dail dolurus
yn gwaedu ar bob brig.

SELWYN GRIFFITH

(Allan o C'nafron a Cherddi Eraill, Gwasg Gwynedd)

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.


Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol


Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

CROESAIR TACHWEDD




AR DRAWS

- 3. A'i dyma sy'n gwneud y tonnau'n wyn wrth dorri dros y creigiau? (5)
- 8. Dadwneud y cread yn Wimbledon (5)
- 10. Disgrifiad o briodas o wybod fod y gŵr yn addoli a chusanu ei wraig (5)
- 11. Iau ydi mab fy mrawd (3)
- 12. Dyn o'r canolbarth, un sydd â gwyfyn ynei waled yn ôl pob hanes (5)
- 13. Prysglwyn (7)
- 15. Gorynys wrth droed yr Himalayas (5)
- 18. Un glas ydi hwn, er gwaetha 'i enw (3)
- 19. Taro ci sy'n gyfrifol am godi'r aderyn yma yn y gors (6)
- 21. Pe bai cornet, yn hytrach na chorn, yn tyfu o ben y fuwch dyma fyddai'r hufen iâ (7)
- 22. Llymeitian (4)
- 23. Disgrifiad o 12 ar draws sy'n fyr a disymwth (4)
- 24. Yr hyn sy'n berthynol i orchudd y corff (7)
- 26. Byddai bod yn y cyflwr yma, yn ogystal â bod yn ofnadwy o sych, yn ei gwneud hi'n amhosib i wisgo maneg (6)
- 29. Polaris a Vega (3)
- 31. Un o'r rhai sy'n caniatáu i Jumbo evelychu Robin (5)
- 32. Mae cwrs Len wedi ei gynllunio i'w wneud yn gyfreithiwr (7)
- 34. Torch y ci (5)
- 35. O ddod a'r plant adra', fe awgrymwn hwn (3)
- 36. Du oedd unig liw rhai T. Henry (5)
- 37. Pryd i ni rhwng cant a dim (5)
- 38. Ugeiniau o gwiroedd (5)

I LAWR

- 1. Cyfarwydd ynglŷn ag ymddygiad (5)
- 2. Cadw dew wedi meddwi, a hithau'n gofalu am y goleudy. Rhag cywilydd iddill (7)
- 4. Ffrwyth pechod (4)
- 5. Bustach neu darw (6)
- 6. Tinna ydi ffynhonnell yr hen nentydd (5)
- 7. Corff marw 5 i lawr (5)
- 9. Mae un yn perthyn i'r sgwlyn, yma ym mro'r Eco (3)
- 12. Un o bellteroedd byd, daw â rhai bychain yn y gôd (7)
- 14. Drychiolaeth, neu efallai dim ond tylluan (3)
- 16. Mae deunydd y dyn gwaethaf yn ldwal (5)
- 17. Dal dŵr ar eiddo'r sgwlyn yn 9 i lawr (5)
- 19. Gwrthwynebwr (7)
- 20. — dy waith, O! Arglwydd Mawr, (Minimus) (5)
- 21. Pwddin o soprano (5)
- 23. Mignen (7)
- 24. Atalnodi â cholon (6)
- 25. Y canfas y disgleiria 29 ar draws arni (3)
- 27. Gall genod bigo'n ofnadwy (5)
- 28. Gwirod a yfir gan yr hen relic (5)
- 30. Lliidiog (5)
- 32. Cecru neu gario straeon (4)
- 33. Yn y De 'cw, dydi Alan ddim wedi dechra' mynd i fyny (3)



DIOLCH

Dymuna Gwynedd Williams, Pen y Bwlch, Mynydd Llandegai, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniodd pan oedd yn yr ysbyty ym mis Mai, ac ym mis Medi pan gafodd lawdriniaeth yno, a hefyd ar ôl dod gartref.

DIOLCH

Dymuna Gwyneth, Tŷ Eryri, ddiolch o galon i'w holl ffrindiau a'i chymdogion ac i'r meddygon yn Llanberis am eu caredigrwydd pan oedd yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dyddiadur y Mis

TACHWEDD

- 1. LLUN: LLANRUG — Ffair Calan Gaeaf yn yr Ysgol Gynradd am 6.30 o'r gloch.
- 2. MAWRTH: PENISARWAUN — Adran yr Urdd. Cyfarfod agoriadol.
- 4. IAU: DINORWIG — Y Gymdeithas Lenyddol. Alice Williams, Caernarfon.'
- 5. GWENER: WAUNFAWR — Tân Gwyllt ar gae'r Ganolfan. Tanio'r goelcerth am 6 o'r gloch. DEINIOLEN — Ysgol Feithrin: Noson Tân Gwyllt yn dechrau am 6.30 o'r gloch
- 8. LLUN: BETHEL — Clwb y Rhos am 7.30 o'r gloch. Gwyndaf Jones, Swyddog Atal Troseddau. LLANRUG — Noson Dawnsio Gwerin yn yr Ysgol Gynradd.
- 10. MERCHER: LLANRUG — Plaid Cymru. Cwis gyda Arwel Jones. LLANRUG — Ffair Lyfrau yn yr Ysgol Gynradd.
- 15. LLUN: DEINIOLEN — Merched y Wawr. Duncan Brown, 'O'r Môr i'r Mynydd'.
- 16. MAWRTH: BETHEL — Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan Maldwyn Thomas.
- 18. IAU: DINORWIG — Y Gymdeithas. Iorwerth Jones-Owen yn sôn am 'Hiwmor'.'
- 21. SUL: BETHEL — Gwasanaeth Sul yr Urdd. Cysegr am 2 o'r gloch.
- 23. MAWRTH: DEINIOLEN — Sefydlu'r Parchg Tegid Robers yn Offeiriad mewn Gofal ar blwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun. Eglwys Crist am 7 o'r gloch.
- 26. GWENER: DEINIOLEN — Plaid Cymru. Ffair Nadolig am 7 p.m. yn yr Ysgol Gynradd, gyda Siôn Corn.
- 29. LLUN: DEINIOLEN — Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan John Ogwen.

RHODDION

- £5: Mr a Mrs John Williams, 6 Rallt Goch, Llanberis; Mrs Gwyneth Williams, Pen y Bwlch, Mynydd Llandegai; Mr William Jones, Y Dreiflan, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Mr Robert David Lewis, 11 Maes Gwylfa, Deiniolen; Teulu y ddiweddar Mrs Jennie Jones, 2 Hafod Olau, Deiniolen; Teulu y ddiweddar Mary Lizzie Jones, 3 Stryd Mason, Bangor; Carrie Prys Owen, Penrhos, Waunfawr; Meirwen Lloyd, Afallon, Llanrug; Gwyneth, Tŷ Eryri, Llanberis; Teulu y ddiweddar Miss E. M. Jones, Maes Gwylfa (Caerau gynt); Jennie Wheldon Jones, Bod Arthur, Llanberis; Robert David a theulu Elizabeth Mary Lewis, Deiniolen; Mr a Mrs J. Hughes, Gwynfryn, Racca.
- £3: Olwen Roberts, Argoed, Stryd Warden, Llanberis; Sioned a Melvyn Jones, 8 Cefn Elan, Llanrug; Enid Thomas, Stryd

Turner, Llanberis; Elwyn a Sandra Davies, Ffordd Tŷ Du, Llanberis; Mrs Catherine Hughes, gynt o 3 Gwyrfa Terrace, Clwt-y-bont; Mr a Mrs Richard Jones, 8 Rhos Rhug.

£2: Mrs Menai Jones, 5 Glanrafon, Llanberis; Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig; Dylan a Wendy, Y Felinheli; Bet, Lyndale, a staff Menter Fachwen; Mrs Elisabeth Jones, 1 Rallt Goch Ceunant, Llanberis; Mrs M. A. Owen, Bod Arfon, Waunfawr; Ellen Thomas, Buarth Newydd, Dinorwig; Terry a Ruth, Deiniolen; Bethan Bryn a Robin Holding; Ellen Thomas, Buarth Newydd, Dinorwig.

Cofiwch am Hysbysebion Nadolig yn y rhifyn nesaf o'r Eco

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272 TREFNWYR ANGLADDAU CEIR AR GYFER PRIODASAU GWASANAETH TACSI

ATEBION CROESAIR MIS HYDREF

Daeth nifer helaeth o atebion i lawr cyn y dyddiad cau, a hynny er gwaetha'r ffaith fod un o'r sgwariau duon wedi ei adael allan — ETO!

'Roedd ambell ymgais ag iddi nifer o gamgymeriadau, ond ar y cyfan, cynnig 'cardyn' yn hytrach na 'carden' fel ateb i 17 ar draws oedd maen tramgwydd y gweddill, ar wahân i'r saith cynnig cywir. Daeth y rhain o Rhoshirwaun, Penisarwaun, Tal-y-sarn, Bethesda, Bangor, Ponllyfni a'r Waunfawr; a'r olaf, sef croesair Iwan Ellis, Ty'n Lliidiart, Waunfawr, ddaeth allan o'r het gyntaf.

Llongyfarchiadau Iwan, daw £5 drwy'r post i ti yn y dyfodol agos.

Daliwch i drio, y gweddill ohonoch, efallai mai chi fydd yn lwcus y mis yma. Gyrrwch eich croeseiriau i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon LL55 3HE, erbyn Tachwedd 18fed.

CHWARAEON

AR RAS I'R ALBAN

Teithiodd tîm o redwyr o Glwb Eryri i'r Alban ar benwythnos ym mis Hydref i redeg mewn ras gyfnewid flynyddol — Pencampwriaeth Rasus Cyfnewid Cymdeithas Rhedwyr Mynydd Prydain. Eleni, roedd y ras yn cael ei chynnal mewn pentref bychan o'r enw Wanlockhead, yng nghanol y mynyddoedd rhwng Lockerbie a Glasgow. Hen ganolfan mwyngloddio plwm oedd y pentref, 1,500 troedfedd uwchlaw'r môr, yn swatio mewn powlen o ddyffryn yng nghanol mynyddoedd grugog. Ychydig iawn o waith oedd yn yr ardal i'r trigolion, ar wahân i orsafoedd radar ar gopaon rhai o'r brynau cyfagos. Roedd yr ysgol gynradd wedi'i chau a'r orsaf rheilffordd yn adfail. Ond yma roedd gwesty uchaf yr Alban, wrth ochr llwybr cerdded enwog y 'Southern Uplands Way'.

Y signal yn yr hen stesion oedd man cychwyn y ras, a chychwynnodd dros 70 o redwyr ar y cymal cyntaf — ras o tua ½ awr. Rhedwyr unigol oedd ar y cymal cyntaf, ond roedd yn rhaid i bâr redeg yr ail gymal — a hynny am tua awr a hanner. Yna trosglwyddo i redwr unigol arall — a redai'r trydydd cymal am tua ½ awr arall cyn trosglwyddo i'r pâr olaf oedd â thaith o tua awr a hanner o'u blaenau cyn gorffen. 'Doedd dim llwybrau pendant i'w dilyn. Roedd pob tîm o chwech yn cael map o'r cwrs ar fore'r ras, ac yn penderfynu ar eu llwybr eu hunain — dim ond gofalu eu bod yn cael eu cofnodi ar dri neu bedwar o gopaon arbennig yn ystod pob cymal. Roedd hi'n hanfodol iddynt gario cwmrawd a map gyda hwy. Diolch i'r drefn nad oedd y tywydd yn niwlog!!

Oherwydd y pellter, tîm Eryri oedd yr unig gynrychiolwyr o Gymru yn y

ras, a bu'n rhaid gadael Wanlockhead cyn i nifer o'n timau orffen y ras. Fel yr oedd yr Eco'n mynd i'r wasg doedd dim canlynidau pendant wedi cyrraedd. Credir fod y tîm wedi dod yn wythfed i ddynion dros 40 oed, a thua deugeinfed yn y ras i gyd.

Ymhlith aelodau tîm Eryri roedd Dafydd Whiteside Thomas o Lanrug, yn rhedeg cymal olaf y ras.

TYMOR Y TRAWS-GWLAD

Ganol mis Medi cychwynnodd tymor y rhedeg traws-gwlad gyda'r rownd gyntaf o gystadleuaeth Gwynedd ym Mharc Glynllifon.

Ddechrau Hydref cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cynghrair Gogledd Cymru yn Bridgnorth, a'r ail gyfarfod ym Mangor ganol y mis. Cychwyn hynod addawol i Colin Jones, Pontrug, yn y tair ras, gyda dau gyntaf ac ail. Bu hefyd yn llwyddiannus iwn mewn ras 10K yn Barnsley yn ystod y mis.

Un arall o'r fro sy'n gwneud ei farc ym myd y rhedeg traws-gwlad yw Gwynfor Owen o Lanrug, gan brofi llwyddiant yn ei ras gyntaf ym Mangor a dod yn aelod o dim Eryri sy'n amddiffyn y bencampwriaeth ar ôl ei hennill y llynedd. Mae cystadleueth bellach yng Nghyngair Gwynedd i'w chynnal yn Nghoedwig Beddgelert ar ddydd Sul, Hydref 31ain.

Cofiwch hefyd droi allan i wyllo a chefnogi'r rhedwyr ym Marathon Eryri ar yr un diwrnod.

LLAFUR CARIAD

Yn ddiweddar cyrhaeddodd 'trysor' acw pan ddaeth Twm Davies, aelod o bwyllgor clwb Llanrug, acw gyda phedwar o lyfrau yn olrhain hanes y clwb o'r 20au i ddiwedd y 50au. Y mae'n lafur cariad go iawn gan ei fod wedi cymryd oriau iddo yn yr Archifdy yng Nghaernarfon i gasglu'r deunydd. Yn amlwg fe gymer oriau lawer i mi bori drwy'r casgliad. I wneud cyfiawnder â'r ymchwil bwriadaf ysgrifennu erthygl gynhwysfawr yn ymdrin â'r pwnc yn hwyrach yn y flwyddyn.

Y mae Twm bellach yn ymhel â hanes clwb Llanrug ers ei ailffurfio yn y 60au. Mae un o'r adroddiadau cynnar yn sôn am ryw Richard Jones yn sgorio clincar o gôl i'r Coleg Normal i guro Llanrug o 2-1, 'Rwy'n cofio'r gêm a slôp arbennig Eithin Duon yn y cyfnod hwnnw. Fel un a chwaraeodd droeon ar gae Llechid roeddwn yn un o'r ychydig fyfyrwyr oedd yn gartrefol ar y fath gael!

Bu amryw yn fy holi ynglŷn ag aelodau y tîm o dan 13 oed — yn cynnwys Malcolm Allen — a ymddangosodd llun ohonynt yn rhifyn Medi o'r Eco. Diolch i Mrs Eirlys Sharpe o Fethel — amam y penfelyn tal yn y cefn. Cewch chwi benderfynu os ydyn yn parhau i fod yn 'angylion bach diniwed' o hyd — yn sicr nid yw Dic Parry wedi heneiddio dim — dyma'r rhestr gyflawn:

Rhes gefn (o'r chwith): Dic Parry, Steven Thomas, Kevin Williams, Steven Owen, Peter Sharpe, Mathew Antoine, Andrew Ward, Nigel Griffiths. Rhes flaen: Steven Reilly, Michael Evans, Kevin John, Malcolm Allen, Garry Wakeham, Iwan Pritchard, Gwyn Morris, Neil Wannup.

CAP DIWEDDARAF Y FRO



Yn rhifyn Medi fe nodais fod tîm o dan 18 oed Cymru (proffesiynol) ar fin cael ei gyhoeddi. Gyda balchder gallwn ychwanegu enw arall at restr cyn-ddisgyblion o Ysgol Brynrefail sy wedi cynrychioli eu gwlad gan i Gavin Allen gael ei gynnwys yn y tîm. Chwaraeodd ar y Cae Ras yn erbyn Gwlad yr Iâ, ond colli fu hanes Cymru er fod perfformiad Gavin wedi bod yn foddhaol. Mae ei frawd hŷn eisoes wedi ennill Cap yn y lefel yma. Tybed mai dyma'r tro cyntaf i frodyr gyflawni hyn tros Gymru? Bu'r bordyr Charles ac Allchurch yn cynrychioli Cymru ar y lefel 'llawn'. Tybed a gaiff yr enw 'Allen' eu hychwanegu at y rhestr. Rwy'n siwr fod Gavin wedi gwerthfawrogi y cefnogwyr lleol a deithiodd i Wrecsam i'w gefnogi.

Tra wrthi'n sgwennu'r llith yma rwy'n cnoi fy ewinedd wrth aros i weld a yw fy nghais am docynnau i weld gêm Cymru v Rwmania wedi bod yn llwyddiannus. Gobeithio y caf docynnau a gobeithio y bydd Malcolm Allen yng ngharfan Cymru. Gobeithio hefyd na fydd rhaid iddo gymryd cic gosb yn y funud olaf!

Nid yw hanes clwb Llanrug cyn hyned â chlwb Llanberis ond teimlaf fod gan Twm ddigon o ddeunydd i gyhoeddi llyfryn cynhwysfawr. Beth amdani Twm?

Rhaid llongyfarch Twm, a'i frawd Bryn, am eu cefnogaeth diflino i glwb Llanrug maent, rhyngddynt, wedi rhoi dros 50 mlynedd o wasanaeth.

CYNNIG ATEB?

Clywais si fod Clwb Pêl-droed Deiniolen yn pendroni ynglŷn â pha weithgaredd i'w drefnu ar gyfer achlysur agor y cae newydd. A gaf wneud awgrym? O gofio llwyddiant nifer o ieuenctid Deiniolen — a pharodrwydd rhai fel John Thomas i roi o'u hamser — bod gêm ieuenctid i ddechrau. Ac yna, bod gêm rhwng Deiniolen (a allai gynnwys 'enwau mawr' a chysylltiadau â'r pentref) a thîm yn cynrychioli timau eraill bro'r Eco. Buasai'n braf pe bai aelodau tîm bro'r Eco i gyd yn enedigol o'r fro. Teimlaf y buasai gêm o'r fath yn adlewyrchu cryfder a thalentau chwarewyr lleol y fro.

Pa dîm fydddech chwi yn ei ddewis i gynrychioli'r fro ar hyn o bryd tybed? Dyna destun dad!!

I GYRRAEDD AMERICA DRAW, FE GADWN HAJI YN DDISTAW.

'TÎM' GO DDAWNUS!



Dyma'r un ar ddeg o Ysgol Brynrefail i gael eu dewis i dimau'r cylch. Ar wahân i Jonathan Davies (canol y rhes gefn), y ceir mwy o'i hanes yng nghlofn newyddion Llanrug, mae'r bechgyn yn cynrychioli Arfon o dan 13 oed a than 15 oed. Bydd y genethod yng ngharfan Hoci Gwynedd.

Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Dylan Williams, Jonathan Davies, Martin Parry.

Rhes ganol: Andrew Williams, Gerallt Hughes, Owain Lloyd, Dylan Yandell Williams.

Rhes flaen: Claire Morris, Rhian Green, Manon Williams, Catrin Jones.

Yn absennol pan dynnwyd y llun roedd Eifion Jones (Arfon o dan 13 oed) a Carys Parry (Hoci Gwynedd).

PYTIAU BYRION

Llongyfarchiadau i'r tri tîm lleol o Gynghrair Sain am eu buddugoliaethau yn ail rownd Cwpan Iau Gogledd Cymru Gwelais y gêm rhwng Deiniolen a Dolgarrog, a theimlaf fod y tîm cartref wedi curo tîm gweddol gryf. Mae'n hen bryd i'r Cwpan Iau ddychwelyd i fro'r Eco — bu'n hesb iawn yma ers campau Llanberis a Llanrug yn y 60au a'r 70au.

Cydymdeimlwn â theluedd dau o gyn-weithwyr Llanrug a fu farw yn ddiweddar, sef Ifan Cae Corniog ac Alf Pensarn. Er coffadwriaeth am y ddau bu i dîm Llanrug wisgo rhubanau duon.

Rwy'n ymwybodol na fu erthygl o lannau'r afonydd yn y rhifynnau diweddaraf o'r Eco. Gallaf eich sicrhau fod y 'potsiwr' yn dal i

arddel eu crefft ac fe fydd Huw Hughes yn bwrw golwg yn ôl ar y tymor ac yn rhoi adroddiad i ni o'u cyfarfod blynyddol.

I barchu dymuniad, yn y pytiau byrion hyn, y nodaf mai Oscar Evans o Fethel oedd capten tîm genweirio Cymru am eleni. Llongyfarchiadau iddo am y fraint — a'r 'speech'!

Tra'n sôn am bysgota, rhaid canmol safiad di-flewyn-ar-dafod y Gymdeithas Bysgota leol ynglŷn â'r llygredd yn yr afonydd a'r llynnoedd. Yn ystod gwyliau'r haf bûm yn yr Alban gan ymweld â harddwch Loch Leven. Mae'r Loch yma yn gyfarwydd fel lleoliad y cystadlaethau rhyngwladol ond yn anffodus, fel yn lleol, cafwyd cryn drafferth gydag 'algae' a bu'n rhaid gwahardd pysgota yno am flwyddyn.